

Cynllun Adfer a Chyflawni Economaid Sir Gaerfyrddin

Adroddiad terfynol

Wedi'i lunio ar gyfer Cyngor Sir Gaerfyrddin

Ebrill 2021

Tabl Cynnwys

CRYNODEB

2	Diben ac uchelgais.....	8
3	Mesur Effeithiau Posibl COVID-19	17
4	Ein Cynllun Adfer	23
5	Sut y byddwn yn cyflawni	41

CRYNODEB

Dyma ein Cynllun Adfer Economaidd sy'n nodi rhyw 30 o gamau gweithredu i gefnogi adferiad economi Sir Gaerfyrddin yn sgil effeithiau cymdeithasol ac economaidd y pandemig COVID-19 a Brexit. Mae'n nodi ein blaenoriaethau ar gyfer cefnogi Busnes, Pobl a Lleoedd. Gyda'r cymorth hwn gall economi Sir Gaerfyrddin ymadfer cyn gynted â phosibl i ddod yn un sy'n fwy cynhyrchiol nag yr oedd o'r blaen, yn fwy cyfartal, yn fwy gwyrdd, yn iachach, a chyda chymunedau mwy cynaliadwy.

Diben ein Cynllun yw nodi'r blaenoriaethau tymor byr a'r camau cyntaf ar gyfer y ddwy flynedd nesaf, sy'n diogelu swyddi a busnesau yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r Cynllun hefyd yn ein rhoi mewn sefyllfa gryfach gyda'n partneriaid economaidd rhanbarthol wrth i ni baratoi'r weledigaeth a'r amcanion ar gyfer y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol a'r Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol dros y misoedd nesaf.

Mae ein Cynllun hefyd yn uchelgeisiol ynghylch dyfodol hirdymor economi Sir Gaerfyrddin gyda'r gred bod gan y sir y cymysgedd cywir o fusnes, pobl a lleoedd i wella a thyfu'n llawer cryfach nag o'r blaen.

Mae ein cryfderau sylfaenol o fewn ein heconomi sy'n cael ei nodweddu gan nifer fawr o bobl hunangyflogedig a microfentrau ynghyd â chyflogaeth sylweddol yn yr economi sylfaenol. . Byddwn yn canolbwyntio ar gefnogi ein mentrau bach a chanolig i uwchraddio, ac mae ein gwybodaeth a'n cysylltiadau lleol â busnesau bach yn Sir Gaerfyrddin yn golygu ein bod mewn sefyllfa dda i gryfhau cymorth yn ein heconomiâu lleol, cynyddu gwariant lleol ac agor y potensial ar gyfer twf mwy lleol mewn cyfoeth a llesiant cymunedol.


Mae adolygiad annibynnol o'n Cynllun Adfer Economaidd Drafft ac 11 thema gychwynnol (Ffigur i) a luniwyd pan oedd ton gyntaf y pandemig ar ei gwaethaf wedi dod i'r casgliad ein bod ar y trywydd iawn a bod angen i ni ganolbwyntio ar ein blaenoriaethau, herio'r ffyrdd presennol o weithio i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i fusnesau a'i gwneud mor syml â phosibl i gefnogi adferiad a thwf yn yr economi. Er bod ein 11 thema gychwynnol wedi bod yn rhoi sylw i'r meysydd cywir, bydd nodi'r synergeddau sy'n bodoli i gefnogi **Busnes, Pobl a Lleoedd** yn helpu i gyfleu ein Cynllun i fusnesau, rhanddeiliaid a phartneriaid, i gyflawni mwy ac ychwanegu gwerth at adferiad economi Sir Gaerfyrddin. Rydym hefyd wedi nodi pedair blaenoriaeth drawsbynciol allweddol gan gynnwys ffocws pwysig ar sicrhau bod gan y sir: **cysylltedd digidol dibynadwy iawn, diwylliant a sgiliau digidol.**

Ffigur i - Themâu strategol adfer a synergeddau llorweddol

11 THEMA ADFER ALLWEDDOL	BUSNES A SECTORAU	POBL	LLEOEDD
Digidol	✓	✓	✓
Tir ac asedau	✓	✓	✓
Sgiliau	✓	✓	
Cymunedau		✓	✓
Y Wlad	✓		✓
Seilwaith cyfalaf	✓		✓
Canol y dref	✓		✓
Cynllunio	✓		✓
Twristiaeth a Digwyddiadau	✓		✓
Caffael	✓		
Cymorth busnes	✓		

- 1.0.1 Ar ddechrau 2021, mae rheolaethau'r Llywodraeth a mesurau cyllidol yn parhau i effeithio'n sylweddol ar economi Sir Gaerfyrddin. Mae effeithiau economaidd-gymdeithasol uniongyrchol COVID-19 a Brexit ar economi Sir Gaerfyrddin wedi'u cuddio'n rhannol gan ymyrraeth enfawr gan y Llywodraeth, yn enwedig y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod Coronafeirws (ffyrlo) a'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig. Yn benodol, mae ffyrlo yn debygol o fod yn cuddio diweithdra yn y dyfodol ar draws pob sector busnes, ac mae ansicrwydd mawr yn bodoli wrth i gyfyngiadau amrywio. Ar adeg yr adroddiad hwn mae pryderon hefyd am y sector bwyd a'i gadwyn gyflenwi sy'n dioddef yn sylweddol ochr yn ochr â chau'r sector lletygarwch, sy'n ganolog i'n heconomi sylfaenol.
- 1.0.2 Mae ein modelu economaidd yn dangos sut y mae COVID-19 wedi effeithio ar economi Sir Gaerfyrddin a sut y mae'n debygol o barhau i effeithio arni. Mae lefel uchel o ansicrwydd o hyd ynghylch patrwm yr adferiad, yn ogystal ag effaith Brexit, felly mae **ein Cynllun yn fyrdymor ac yn hyblyg, gan ganolbwyntio ar y cyfnod adfer critigol dros y 24 mis nesaf**, ac mae'n cyd-fynd â blaenoriaethau ail-greu Llywodraeth Cymru.

Ffigur ii - Y Newid a Ragwelir Wedi'i Fynegeoio mewn GYG a Chyflogaeth yn Sir Gaerfyrddin (Ebrill 2021)



Rydym wedi modelu amrywiaeth o senarios posibl ar gyfer effeithiau COVID-19 a Brexit ar economi Sir Gaerfyrddin yn ystod y tair blynedd nesaf (gweler y ffigur uchod ac Adran 2).

- Mae'r effaith gyffredinol (gan ddefnyddio GYG (Gwerth Ychwanegol Gros) fel mesur o hyn) wedi bod yn sylweddol, gyda newidiadau ar draws ystod eang o sectorau. **Mae'n annhebygol y bydd GYG yn gwella i'w lefel cyn y pandemig am o leiaf 3 blynedd.**
- Mae'r effaith uniongyrchol ar gyflogaeth, er ei bod yn sylweddol, wedi'i lleihau gan ymyrraeth Llywodraeth y DU. **Felly, disgwylir i'r gostyngiad mwyaf mewn cyflogaeth gael ei ohirio tan Ch4 2021**, ac fel GYG, mae posibilrwydd cryf na fydd cyflogaeth yn gwella i'r lefelau cyn y pandemig yn y 3 blynedd nesaf.
- **Ceir y gostyngiadau mwyaf mewn cyflogaeth mewn Llety a Gwasanaethau Bwyd, Cyfanwerthu, Manwerthu a Masnachau Moduron a Gweithgynhyrchu.** Fodd bynnag, mae rhai sectorau sy'n gweld twf mewn cyflogaeth o gymharu â 2019.

Bydd yr adferiad yn araf, ac mae'n bosibl y bydd yn cymryd blyneddau lawer i economi Sir Gaerfyrddin ymadfer i'w lefel flaenorol, heb sôn am wneud iawn am effaith argyfwng COVID-19 a'i ganlyniadau. Felly, ein **blaenoriaeth gyntaf yw diogelu swyddi a busnesau.** Mae angen i ni hefyd barhau i fynd i'r afael â'r **heriau tymor hwy** sy'n cyfyngu ar dwf yn Sir Gaerfyrddin gan gynnwys **cynhyrchiant a chyflogau isel, diffygion sgiliau, nifer rhy fach o fusnesau sy'n datblygu, a'r angen i fuddsoddi mewn seilwaith a safleoedd busnes modern.**

Canlyniadau targed ein cynllun adfer yw creu mwy na 3,000 o swyddi i gymryd lle'r rhai sydd eisoes wedi'u colli; diogelu a disodli hyd at 10,000 o swyddi a allai fod wedi bod mewn perygl mawr neu sydd mewn perygl mawr o gael eu colli ar ôl i'r cynllun ffyrlo ddod i ben; a chefnogi dros 1,400 o fusnesau sydd mewn perygl o ansolfedd. Yn ogystal â'r effeithiau mesuradwy hyn ar economi Sir Gaerfyrddin, bu cyfle yn sgil effaith Covid-19 a Brexit ar ein heconomi. Targed ymestynnol i herio ein hunain i sefydlu'r lefelau o gymorth sydd eu hangen i greu tua 1,700 o swyddi ychwanegol a fyddai wedi'u creu pe bai ein heconomi wedi aros ar ei thafllwybr twf cyn yr argyfwng.

Ffigur iii – Targedau adfer

3,000 O SWYDDI	- Creu swyddi newydd i gymryd lle'r rhai sydd eisoes wedi'u colli
10,000 O SWYDDI	- Diogelu a disodli'r rhai a allai fod wedi colli neu mewn perygl o gael eu colli
1,400 O FUSNESAU	- Cefnogi busnesau sydd mewn perygl o ansolfedd
1,700 O SWYDDI	- Creu cyflogaeth ychwanegol uwchlaw ein lefelau cyn y pandemig

Mae dwy ran i'n llwybr adfer:

- **Lleoliaeth** - adeiladu cymunedau cryf, cynaliadwy a gwydn sy'n dibynnu ar fusnesau lleol, dyfeisgarwch lleol a chefnogaeth leol. Ar y lefel hon, effaith fwyaf COVID-19 fu ar sectorau â lefelau cynhyrchiant cymharol isel sydd serch hynny o bwys allweddol i'n hadferiad, ac sy'n cynnwys busnesau ym maes **manwerthu, bwyd a diod, twristiaeth/llety a diwylliant**.
- **Cystadleugarwch** - cynyddu lefel cynhyrchiant a chystadleugarwch ar draws yr economi gyfan, ond yn hanfodol yn ein sectorau busnes mwyaf cystadleuol. Mae ein sectorau allweddol sydd â mwy o botensial ar gyfer cynhyrchiant uwch, cyflogau uwch a lefelau twf uwch yn debygol o fod wedi teimlo llai o effaith ond maent yn hanfodol ar gyfer cynyddu maint ein heconomi a chyflogi mwy o bobl – **gweithgynhyrchu uwch, diwydiannau creadigol, economi werdd, iechyd, gofal a gwyddor bywyd ac amaethyddiaeth a chynhyrchu bwyd**.

Gallwn gyflawni hyn drwy ganolbwyntio ar y tair thema gyffredinol a grybwyllwyd uchod - **Busnes, Pobl a Lleoedd** (a drafodir yn Adran 3) **gyda phedair uchelgais drawsbynciol â blaenoriaeth:**

- **Cysylltedd digidol dibynadwy iawn, diwylliant a sgiliau digidol** – gwella cysylltedd, mynd i'r afael â'r heriau cysylltiedig i'w gweithredu ac ymyrryd i wneud gwelliannau mewn cysylltedd digidol yn awr ac ar gyfer y dyfodol.
- **Sgiliau** - cefnogi pobl a busnesau i ailhyfforddi, ailsigilio, ac uwchsgilio drwy ddysgu traddodiadol, dysgu ar-lein a dysgu yn y gwaith.
- **Economi werdd** – ychwanegu gwerth economaidd drwy gadw adnoddau i'w defnyddio a lle mae gwastraff yn cael ei osgoi, buddsoddi mewn seilwaith carbon isel sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd, ynni adnewyddadwy a chartrefi cynaliadwy.
- **Economi deg a chyfartal** a chefnogaeth i'r **Gymraeg a diwylliant Cymru** – cefnogi diwylliant a llesiant pobl gyda chyflogaeth leol, teg, addas a diogel.

Mae cysylltedd digidol yn rhan flaenllaw a chanolog o'n cynlluniau adfer ac rydym hefyd yn nodi'n benodol yr angen i gryfhau mesurau sy'n cael pobl yn ôl i'r gwaith drwy fesurau cyflogadwyedd a sicrhau bod gan bobl y sgiliau cywir i wneud y swyddi a grëir.


Mae Ffigur iv a v, isod, yn cyflwyno trosolwg o'n camau gweithredu allweddol a'n dull arfaethedig, wedi'i grynhoi mewn diagram 'Theori Newid' sy'n dangos yr hyn rydym yn ei wneud, pam rydym yn ei wneud, a chanlyniadau gwneud hyn. Ar frig y ffigur, rydym yn crynhoi'r heriau a'r cyfleoedd yr ydym yn eu hwynebu yn Sir Gaerfyrddin yn y tymor byr a'r tymor hwy. Isod, rydym yn dangos yr ymyriadau a nodir yn y cynllun hwn i fynd i'r afael â'r rhain. Mae'r ymyriadau hyn yn darparu allbynnau (e.e. cymorth, buddsoddiad, hyfforddiant ac ati.); mae'r allbynnau'n arwain at ganlyniadau (e.e. swyddi, busnesau, ymwelwyr ac ati.); ac mae'r canlyniadau'n cefnogi'r effeithiau a'r newidiadau ar ein heconomi (e.e. cyflogau uwch, cynhyrchiant, GYG ac ati.). Ar waelod y ffigur, rydym yn dangos y ffactorau allanol a fydd yn dylanwadu ar gyflawniad ac effaith ein cynllun.

Mae dull Sir Gaerfyrddin yn golygu bod gennym ganolbwynt cryf ar ein cymuned leol, ond rydym hefyd yn gweithio'n rhanbarthol ac yn genedlaethol i fanteisio i'r eithaf ar bob cyfle ar gyfer adferiad a thwf. Fodd bynnag, ni all yr Awdurdod Lleol gyflawni popeth, a bydd angen i ni weithio gyda sefydliadau allanol i sicrhau bod y dylanwadau hyn yn cefnogi ein cynllun ar gyfer adferiad a thwf.

Ffigur iv – Crynodeb o'r camau adfer

BUSNES	POBL	LLEOEDD
Rhoi cymorth brys i'r cyflogwyr hynny sydd mewn perygl o ddileu swyddi ac i fusnesau recriwtio'r rhai sydd wedi colli eu swyddi	Targedu cymorth busnes ar gyfer pobl hunangyflogedig a microfusnesau	Tai carbon isel a mesurau ôl-ffitio i leihau ynni i dyfu'r economi werdd
Pennu anghenion sgiliau'r gweithlu busnes a gwneud y gorau o gyfleoedd cyflogaeth lleol, cefnogi pobl leol i gael gwaith	Ymwybyddiaeth o sgiliau digidol, sgiliau a chymorth llythrennedd	Gwella cysylltedd digidol – darparu rhaglen ar gyfer cysylltedd gigabit sy'n addas ar gyfer y dyfodol
Cronfa Adfer a Chymorth Busnes newydd i ddiogelu a chreu swyddi a chefnogi arallgyfeirio	Dysgu sgiliau i breswylwyr a'u hailsgilio a sicrhau bod ganddynt y sgiliau cywir i gefnogi sectorau twf	• Adolygu a diweddarau uwchgynlluniau ar gyfer Caerfyrddin, Llanelli a Rhydaman • Cynlluniau adfer a thwf ar gyfer ein 10 tref wledig
Dyrannu arian ychwanegol ar gyfer ein: • Cronfa ar gyfer Mentrau Gwledig • Cronfa Tyfu Busnes • Cronfa Cychwyn Busnes	Nodi unigolion a microfusnesau a elwir yn "Eithriedig" ac asesu lefel y cymorth sydd ei angen drwy ein pecyn cymorth busnes	Cynnal llif wedi'i dargedu o gaffaeliadau/prydles eiddo posibl yng nghanol trefi er mwyn cyflawni amcanion adfywio
Cronfeydd eiddo cyflogaeth newydd i gefnogi hyfywedd buddsoddi yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus: • Cronfa Datblygu Eiddo Masnachol • Rhaglen Lle Cyflogaeth		Canolfannau gweithio ystwyth ar gyfer CSC a'n partneriaid yn y sector cyhoeddus/trydydd sector
Cymorth i fusnesau drwy ein heiddo diwydiannol a masnachol a reolir		Gorchymyn Datblygu Lleol ar gyfer pob prif dref ac ardaloedd cyflogaeth allweddol o bosibl
Aildddefnyddio ac ailddatblygu asedau cyhoeddus i greu hybiau gwaith		Gwelliannau i'r amgylchfyd cyhoeddus i wneud trefi'n ddiogel ac yn ddymunol ac i gefnogi busnesau
Blaengynllunio cyfleoedd tendro 'piblinell' 3-5 mlynedd yn y sector cyhoeddus a rhoi cymorth i fusnesau lleol er mwyn iddynt dargedu'r cyfleoedd hyn		Darparu brand a strategaeth gyfathrebu newydd i Sir Gaerfyrddin i gefnogi manwerthu, hamdden a thwristiaeth
Sicrhau bod cwmnïau lleol yn cael eu hannog i dargedu contractau awdurdod lleol gwerth is		Menter 100% Sir Gâr i annog a chefnogi mabwysiadu digidol a marchnata busnes
Adolygu ein hymgysylltiad wedi'i dargedu â busnesau lleol er mwyn sicrhau bod y rhestr bresennol yn cynnwys cwmnïau yn ein sectorau twf, gan gynnwys busnesau bach a chanolig sydd â photensial twf uchel		Darparu tai fforddiadwy fel sbardun economaidd pwysig i'n datblygiad ynni gwyrdd, adeiladu a'n cadwyn gyflenwi
		Darparu parth twf a thwf safle strategol ym Mhentre Awel, Cross Hands, Pentywyn a'r Egin
		Buddsoddi mewn cysylltedd ffisegol a theithio cynaliadwy –e.e. Gorsaf Sanclêr (Llywodraeth y DU) a rhannau o Lwybr Beicio Dyffryn Tywi

Ffigur v: Theori Newid ar gyfer y Cynllun Adfer ar gyfer Sir Gaerfyrddin



2 Diben ac uchelgais

- 2.0.1 **Diben ein Cynllun Adfer Economaidd yw nodi'r blaenoriaethau tymor byr a'r camau gweithredu uniongyrchol dros y ddwy flynedd nesaf sy'n diogelu swyddi a busnesau yn Sir Gaerfyrddin mewn ymateb i COVID-19 ac effeithiau uniongyrchol Brexit.**
- 2.0.2 Mae'r Cynllun yn seiliedig ar fodelu economaidd cynhwysfawr o effeithiau'r pandemig a gadael yr UE ar y sir. Mae oddeutu 30 cam gweithredu wedi'u nodi yn y Cynllun ac mae llawer ohonynt eisoes ar waith ar ryw ffurf sy'n adlewyrchu'r camau a gymerwyd ar unwaith mewn ymateb i'r pandemig. Mae ein camau gweithredu eisoes yn cael effaith drwy waith y Cyngor a'n partneriaid, a lle mae angen cyllid ac adnoddau ychwanegol ar fentrau, rydym yn cymryd camau i sicrhau bod y rhain yn cael eu rhoi ar waith.
- 2.0.3 Y tu hwnt i'r cyfnod adfer a thros y blynyddoedd nesaf, rydym eisoes yn cymryd rhan yn y gwaith o baratoi Fframwaith Economaidd Rhanbarthol ehangach ar gyfer De-orllewin Cymru gyda Llywodraeth Cymru a pharatoi Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol newydd gyda'n partneriaid yn Ninas-ranbarth Bae Abertawe. Mae'r Cynllun hwn yn ein rhoi mewn sefyllfa gryfach i gyflawni lefel y cymorth a'r adnoddau sydd eu hangen i adfywio ac adnewyddu'r economi yn y tymor hwy.
- 2.0.4 **Rydym hefyd yn uchelgeisiol ynghylch dyfodol hirdymor economi Sir Gaerfyrddin ac yn credu bod gan y sir y cymysgedd cywir o elfennau sydd â'r potensial i sicrhau economi fwy cynhyrchiol, cyfartal, mwy gwyrdd ac iachach drwy fuddsoddiad parhaus.**
- 2.0.5 Amrywiaeth yw ein cryfder: rydym yn parhau i fuddsoddi yn ein trefi fel lleoedd deniadol i fyw ynddynt; mae ein dwyieithrwydd yn ein diffinio ac mae angen ei diogelu; ac mae ein cymuned fusnes yn gweithredu ar draws llawer o sectorau twf allweddol sy'n datblygu. Mae ein sectorau twristiaeth a hamdden yn tyfu ac yn cynnig cymaint i breswylwyr ac ymwelwyr. Rydym yn parhau i fuddsoddi yn ein safleoedd cyflogaeth strategol er mwyn i fusnesau a gweithwyr ffynnu.
- 2.0.6 Mae **cysylltedd digidol cyflym a dibynadwy iawn, diwylliant a sgiliau digidol** yn ganolog i'n blaenoriaethau ar gyfer adferiad a thwf ac er bod lefelau uchel o gysylltedd digidol eisoes ar waith i ni elwa ohonynt yn ein bywydau cartref a gwaith; mae mwy o fuddsoddiad ar y gweill ac wedi'i gynllunio i'n sir gael ei chysylltu'n dda iawn. Rydym yn arwain y Prosiect Seilwaith Digidol rhanbarthol gwerth £55m ac yn gweithio gyda'r farchnad delathrebu ac yn ymyrryd i wella cysylltedd digidol. Gallwn fod yn hyderus mai prin yw'r rhesymau pam na all ein preswylwyr a'n busnesau weithredu a chystadlu yn yr economi fyd-eang yn y dyfodol gan barhau i fod wedi'u lleoli yn Sir Gaerfyrddin gyda lefel dderbyniol o gysylltedd digidol, ac rydym yn gweithio tuag at y targed o gysylltedd gigabit sy'n addas ar gyfer y dyfodol ar gyfer y tymor canolig i'r hirdymor.

- 2.0.7 Byddwn hefyd yn canolbwyntio ar wneud y mwyaf o gryfder sylfaenol ein pobl hunangyflogedig a microfusnesau (sy'n cyflogi llai na 10 o bobl). Mae llawer wedi dioddef ond hefyd wedi dangos gwytnwch rhyfeddol yn ystod y pandemig ac yn helpu i ddiogelu'r economi rhag llawer mwy o ergydion yn sgil Covid-19 a Brexit. Cyflogir nifer fawr yn yr economi sylfaenol, rhannau bob dydd ein heconomi gan gynnwys gofal iechyd, tai, addysg, cyflenwi a chynhyrchu bwyd, adeiladu a manwerthu. Mae ein gwybodaeth a'n cysylltiadau lleol â busnesau bach yn Sir Gaerfyrddin yn golygu ein bod mewn sefyllfa dda i gryfhau cefnogaeth o fewn ein heconomiâu lleol, cynyddu gwariant lleol ac agor y potensial ar gyfer twf mwy lleol mewn cyfoeth a llesiant cymunedol.
- 2.0.8 Wrth ddatblygu'r cynllun rydym wedi ystyried yn llawn Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) drwy sicrhau bod y camau yr ydym wedi'u nodi yn ystyried ac yn ymgorffori datblygu cynaliadwy yn llawn gyda'r nod o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ym mhopeth a wnawn.
- 2.0.9 Rydym hefyd wedi ystyried sut y gallwn ddefnyddio'r pum ffordd o weithio wrth i ni wneud cynnydd ar y camau gweithredu a nodwyd. Caiff hyn ei ddatblygu ymhellach wrth i gynlluniau manwl ar gyfer cyflawni'r camau gweithredu gael eu datblygu, ond mae'r canlynol yn rhoi crynodeb o'n hystyriaethau cyffredinol.


Ffigur 1 - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Ffordd o Weithio	Trosolwg	Ystyriaeth cynllun adfer economaidd Sir Gaerfyrddin
Hirdymor	Y pwysigrwydd o gydbwyso anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd	Er bod y cynllun hwn yn canolbwyntio ar ein blaenoriaethau tymor byr ar gyfer y 2 flynedd nesaf, datblygwyd y camau hyn gan ystyried yr effaith yn y tymor hwy. Ar ôl ystyried modelu tymor hwy ac effeithiau posibl, mae'r cynllun wedi nodi'r ymyriadau tymor byr sy'n ofynnol gan y Cyngor a'i bartneriaid i sefydlogi, ailadeiladu a galluogi datblygu economaidd tymor hwy yn y dyfodol.
Atal	Gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethgu helpu cyrrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion	Mae'r cynllun cyfan hwn yn canolbwyntio ar gynorthwyo adferiad economaidd yn dilyn pandemig COVID-19. Y diben yw cymryd camau tymor byr i alluogi'r economi leol i ymadfer mor gyflym â phosibl. Heb ymyrraeth o'r fath yn y tymor byr, gallai adferiad economaidd gymryd mwy o amser a chael mwy o effaith ar ein heconomi a'n cymunedau lleol.
Integreiddio	Ystyried sut y gallai amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrrff cyhoeddus eraill	Mae'r Cyngor wedi nodi adferiad economaidd ac adfywio fel blaenoriaeth gorfforaethol o ystyried ei effaith gymdeithasol a chymunedol ehangach. O ganlyniad, bydd y cynllun yn effeithio ar holl amcanion llesiant y Cyngor mewn rhyw ffordd ac mae rhannu perchnogaeth ar draws y Cyngor ac mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i gyflawni a gwneud cynnydd yn erbyn y camau gweithredu.
Cydwelthio	Cydwelthio ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant	Bydd y cynllun yn gweithio ar draws meysydd allweddol gwasanaethau'r Cyngor - tai, cynllunio, caffael, cyllid, addysg a hamdden yn bennaf.
Cynnwys	Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny yn	Bydd cynnwys busnesau lleol, partneriaid yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector a'r cyhoedd ehangach yn allweddol i sicrhau bod y cynllun yn cael ei gyflawni. Mae'r Cyngor yn cynnal Grŵp Cyngori ar Fusnes sydd wedi bod yn allweddol wrth ddatblygu a phrofi'r cynllun hwn. Bydd y Cyngor

	adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn gwasanaethu ynddi	hefyd yn ymgysylltu â chyrrff cyhoeddus eraill drwy Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin i ychwanegu gwerth at y cyfan y mae'n ei wneud.
--	---	--

2.1 Y Cyd-destun

- 2.1.1 Rydym wedi adolygu ein camau gweithredu a'n blaenoriaethau strategol ac wedi paratoi'r **Cynllun Adfer Economaidd hwn (y Cynllun)** i fynd i'r afael ag effeithiau cymdeithasol ac economaidd COVID-19 ar yr economi. Bydd hyn yn galluogi'r awdurdod a'n partneriaid allweddol i gydgyssylltu a thargedu'r adnoddau sydd ar gael i leihau effaith y dirywiad economaidd tebygol ac i ysgogi galw a hyder yn ystod yr adferiad. Ein nod yw sicrhau y gall economi Sir Gaerfyrddin ymadfer cyn gynted â phosibl i ddod yn un sy'n fwy cynhyrchiol nag yr oedd o'r blaen, yn fwy cyfartal, yn fwy gwyrdd, a chyda chymunedau iachach a mwy cynaliadwy.
- 2.1.2 Wrth baratoi'r Cynllun, mae ein mesurau adfer ac ymateb economaidd presennol wedi'u hadolygu'n annibynnol i sicrhau ein bod yn canolbwyntio ein hymdrechion a'n hadnoddau lle byddant yn cael yr effaith fwyaf, a'r rolau a'r cyfrifoldebau sydd eu hangen i'w cyflawni. Nododd yr adolygiad fod ein mesurau ailddechrau ac adfer cychwynnol wedi bod yn rhoi sylw i'r meysydd cywir i gefnogi adferiad a thwf ar draws pob sector o'r economi. Fodd bynnag, mewn sefyllfa sy'n symud yn gyflym a chan fod materion a chyfleoedd newydd yn dod i'r amlwg bron bob dydd, mae angen i ni ganolbwyntio ar ein blaenoriaethau pwysicaf lle byddwn yn cael yr effaith fwyaf a pharhaol. Bydd ein Cynllun wedi'i ddiweddarau hefyd yn helpu i ymgysylltu â busnesau, rhanddeiliaid a phartneriaid, ac yn nodi sut y gallwn gydweithio, cyflawni mwy, ac ychwanegu gwerth at adferiad economi Sir Gaerfyrddin.



Ffigur 2 – Cysylltiadau Cynllun Adfer Sir Gaerfyrddin

- 2.1.3 Bydd y gwaith o ddatblygu a chyflawni'r Cynllun yn parhau i gael ei gefnogi gan ein grŵp ar gyfer adfer Busnes, yr Economi a'r Gymuned sy'n canolbwyntio ar ffrydiau gwaith â blaenoriaeth a nodir o dan 11 thema strategol. A bydd ein Fforwm Cyngori ar Fusnes trosfwaol sy'n cynnwys arweinwyr diwydiant y sector preifat yn parhau i ddarparu safbwyntiau busnes drwy gydol yr adferiad economaidd. Yn ogystal, mae ein grŵp Gwasanaethau Amaeth a Phroffesiynol yn darparu ffocws gwledig a safbwynt diwydiant gan undebau'r ffermwyr a'r sectorau amaethyddol lleol.
- 2.1.1 Ym mis Mehefin 2020 cyhoeddwyd y Cynllun Adfer Economaidd Drafft oedd yn canolbwyntio ar yr 11 thema strategol allweddol hyn gyda nifer o feysydd gweithredu posibl drafft a chynigion i'w hystyried ymhellach. Lluniwyd y rhain pan oedd cyfyngiadau symud y Gwanwyn ar eu gwaethaf ac roeddent yn cydnabod pwysigrwydd herio ffyrdd presennol o weithio i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i fusnesau a'i gwneud mor syml â phosibl i'r economi ymadfer a thyfu. Nododd y Fforwm Cyngori ar Fusnes bwysigrwydd nodi'r synergeddau ar draws pob un o'r meysydd blaenoriaeth er mwyn rheoli adnoddau a gwneud cynnydd effeithiol. Nododd y Fforwm hefyd bwysigrwydd meithrin dealltwriaeth fwy cyffredin o ddatblygu economaidd sy'n glir i'w derbyn, ei deall a'i gwireddu.

Ffigur 3 – Themâu strategol adfer a synergeddau llorweddol

11 THEMA ADFER ALLWEDDOL	BUSNES A SECTORAU	POBL	LLEOEDD
Digidol	✓	✓	✓
Tir ac asedau	✓	✓	✓

Sgiliau	✓	✓	
Cymunedau		✓	✓
Y Wlad	✓		✓
Seilwaith cyfalaf	✓		✓
Canol y dref	✓		✓
Cynllunio	✓		✓
Twristiaeth a Digwyddiadau	✓		✓
Caffael	✓		
Cymorth busnes	✓		

- 2.1.2 Rydym wedi gwranddo ar ein partneriaid a nod y Cynllun hwn yw adeiladu ar waith presennol y grŵp ar gyfer adfer Busnes, yr Economi a'r Gymuned gan ganolbwyntio ar y prosiectau a'r camau gweithredu a fydd yn cael yr effaith fwyaf o ran **diogelu swyddi a busnesau**. Mae angen i ni hefyd barhau i **fynd i'r afael â'r heriau tymor hwy** sy'n cyfyngu ar dwf yn Sir Gaerfyrddin gan gynnwys cynhyrchiant a chyflogau isel, diffygion sgiliau, nifer rhy fach o fusnesau sy'n datblygu, a'r angen i fuddsoddi mewn seilwaith a safleoedd busnes modern. Gallwn gyflawni hyn drwy ganolbwyntio ar dair thema allweddol - **Busnes, Pobl a Lleuedd**, a drafodir yn fanylach yn Adran 3. Mae'r rhain wedi'u cysylltu â phedwar uchelgais drawsbynciol â blaenoriaeth: **cysylltedd digidol, sgiliau, economi werdd ac economi deg a chyfartal** sy'n cefnogi'r **Gymraeg a diwylliant Cymru**. Yn benodol rydym yn nodi'r angen i gryfhau mesurau sy'n cael pobl yn ôl i'r gwaith drwy fesurau cyflogadwyedd a sicrhau bod gan bobl y sgiliau cywir i wneud y swyddi a grëir.

2.2 Strategaeth

- 2.2.1 Ceir llawer o'r rhesymeg fanwl a thechnegol y tu ôl i'n cynllun yng ngwaith y grŵp ar gyfer adfer Busnes, yr Economi a'r Gymuned, yr is-grŵp, yn ogystal â'n strategaethau adfywio economaidd presennol a'n cynlluniau gweithredol ar gyfer Sir Gaerfyrddin.
- 2.2.2 At hynny, mae'r cyd-destun economaidd strategol ar gyfer adferiad Sir Gaerfyrddin hefyd yn newid, gan fod Llywodraeth Cymru yn paratoi **Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol** a fydd yn nodi gweledigaeth a blaenoriaethau lefel uchel ar gyfer y rhanbarth. O ganlyniad, mae'r pedwar awdurdod lleol yn Ne-orllewin Cymru yn llunio **Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol** newydd. Bydd hyn yn cymryd lle Strategaeth Adfywio Economaidd Dinas-ranbarth Bae Abertawe. Bydd yn darparu fframwaith strategol manylach a chynllun gweithredu sy'n nodi camau gweithredu ar gyfer y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir i fynd i'r afael â'r amgylchiadau economaidd newidiol a'r heriau a'r cyfleoedd economaidd allweddol i Sir Gaerfyrddin yn y rhanbarth.

- 2.2.3 Ym mis Tachwedd 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru** hefyd, fframwaith datblygu economaidd newydd sy'n canolbwyntio ar y rhanbarth a chynllun ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU a fydd yn cymryd lle cyllid yr UE.¹² Mae'r Fframwaith yn cael ei lywio gan flaenoriaethau ail-greu COVID-19 Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar ac mae'n nodi egwyddorion ail-greu ac adfer economaidd a blaenoriaethau strategol a arweinir gan werthoedd.³ Mae'r rhain yn ganllawiau amserol a phwysig ar gyfer Cynllun Adfer Sir Gaerfyrddin. Mae cyfnod pontio Brexit yn dod i ben ar 1 Ionawr 2021 ac mae yr un mor bwysig ac mae'n fframio'r cyd-destun uniongyrchol yn ogystal â'r adferiad tymor canolig a thymor hwy.

2.3 Heriau COVID-19

- 2.3.1 Adeg paratoi'r Cynllun, mae rheolaethau a mesurau ariannol 'dan arweiniad adferiad y Llywodraeth' yn parhau i effeithio'n sylweddol ar yr economi. Mae effeithiau uniongyrchol COVID-19 ar economi Sir Gaerfyrddin wedi'u cuddio'n rhannol gan ymyrraeth enfawr gan y Llywodraeth, yn enwedig y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod Coronafeirws (ffyrlo) a'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig
- 2.3.2 Mae ymestyn y cynllun ffyrlo hyd at ddiwedd Medi 2021 yn debygol o fod yn cuddio diweithdra yn y dyfodol ar draws pob sector busnes. Bydd cymorth ariannol y Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig hefyd yn dod i ben, ac felly hefyd gronfeydd Cadernid Economaidd Llywodraeth Cymru. Mae'n bosibl, hyd yn oed yn debygol, y bydd ymyriadau'r Llywodraeth yn amrywio ymhellach dros y 6 i 12 mis nesaf gan adlewyrchu'r llwyddiant o ran rheoli'r pandemig a'r angen am unrhyw 'cyfnodau atal' pellach a chyfyngiadau symud lleol.

Llai o weithgarwch economaidd

- 2.3.3 Bydd pandemig COVID-19 yn arwain at leihad mewn gweithgarwch economaidd ar draws Sir Gaerfyrddin, Cymru a'r DU oherwydd y canlynol:
- Mae cyfyngiadau symud gan gynnwys cyfnod atal yr hydref, a mesurau cadw pellter cymdeithasol parhaus, yn golygu bod sectorau fel Manwerthu, Gwasanaethau Personol, Bwyd a Diod, a Llety wedi dioddef gostyngiad amlwg mewn gweithgarwch;
 - Mae amharodrwydd defnyddwyr, sef preswylwyr ac ymwelwyr, i ymweld â chanol trefi wedi arwain at leihad mewn gwariant ar nwyddau a gwasanaethau yn yr ardal leol. Mae siopa ar-lein wedi gwneud iawn am rywfaifaint o hyn, ond efallai na fydd hyn o fudd i'r economi leol;

¹Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru, Llywodraeth Cymru (2020)

²Mae cyllid yr UE yn y cyd-destun hwn yn ymwneud â Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Cronfa Gymdeithasol Ewrop, a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig

³Ail-greu ar ôl COVID-19: Yr Heriau a'r Blaenoriaethau, Llywodraeth Cymru (Hydref 2020)

- Mae llai o ddefnydd o drafnidiaeth gyhoeddus yn golygu bod pobl yn llai tebygol o deithio ar gyfer gwaith a hamdden;
- Mae tarfu a newidiadau mewn cyflenwad/galw lleol, cenedlaethol a byd-eang yn effeithio ar sectorau eraill e.e. gweithgynhyrchu;
- Cau ysgolion/tarfu ar allu rhieni i weithio, gan leihau gweithgarwch economaidd, ac
- Mae newidiadau sylweddol i batrymau gwaith a gweithleoedd wedi arwain at rywfaent o leihad mewn lleoliadau gweithgarwch economaidd.

2.3.4 Gellir gweld holl effeithiau hyn mewn gostyngiad gwirioneddol mewn GYG yn Sir Gaerfyrddin. Nid yw'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn llunio data GYG misol ar lefel Sir Gaerfyrddin, ond rydym wedi modelu'r effaith bosibl ar Sir Gaerfyrddin, gan ddefnyddio data'r DU fel man cychwyn. GYG Sir Gaerfyrddin cyn argyfwng COVID-19 oedd £3.1 biliwn y flwyddyn.⁴ Mae hyn wedi gostwng £270 miliwn yn nhri chwarter cyntaf 2020.

2.3.5 Mae'r effaith ar weithgarwch economaidd a chyflogaeth yn Sir Gaerfyrddin yn debygol o waethgu wrth i effeithiau pandemig COVID-19 barhau. Trafodir effeithiau posibl yn y dyfodol yn fanylach isod.

Pobl

2.3.6 Bu effaith ar gyflogaeth a gweithgarwch economaidd yn Sir Gaerfyrddin o ganlyniad i argyfwng COVID-19. Dyma'r effeithiau allweddol:

- Yn Sir Gaerfyrddin, roedd 30% o'r swyddi cymwys (cyfanswm o 22,500) ar ffyrlo (h.y. Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod Coronafeirws) ar ddiwedd mis Mehefin 2020. Roedd hyn wedi gostwng i 10% erbyn diwedd mis Awst (cyfanswm o 7,300 o swyddi). Y cyfnod diweddaraf y mae data ar gael ar ei gyfer yw mis Chwefror 2021 ac mae'n dangos bod 10,000 o swyddi wedi'u rhoi ar ffyrlo sy'n golygu mai cyfanswm y swyddi unigol ar ffyrlo ers i'r cynllun ddechrau ym mis Mawrth 2020 yw 26,300.
- Mae hyd at 75% o'r hunangyflogedig (7,700 o bobl) yn Sir Gaerfyrddin wedi hawlio o'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig yn y rownd gyntaf o gymorth (er eu bod wedi gallu parhau i weithio). Yn yr ail rownd o gymorth, roedd 6,200 o bobl wedi cyflwyno erbyn diwedd Medi 2020.
- Mae nifer yr hawlwr yn Sir Gaerfyrddin wedi cynyddu o 3,025 ym mis Ionawr 2020 i 5,905 ym mis Hydref 2020, sef cynnydd o 2,880 neu 95% ychwanegol dros y lefel cyn argyfwng.
- Mae diweithdra wedi cynyddu o 3.1% yn ystod y 12 mis hyd at fis Mehefin 2019, i 4.1% yn ystod y 12 mis hyd at fis Mehefin 2020.

⁴Data diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer 2018

- Ceir y gostyngiad mwyaf mewn cyflogaeth ym maes Masnach Cyfanwerthu a Manwerthu a Gwasanaethau Llety a Bwyd.

Busnes a sectorau

- 2.3.7 Fel y trafodwyd uchod, mae argyfwng COVID-19 wedi effeithio'n wael ar sectorau penodol, gan gynnwys Masnach Cyfanwerthu a Manwerthu a Gwasanaethau Llety a Bwyd.
- 2.3.8 Er y bu effaith uniongyrchol ac amlwg ar rai sectorau, cafwyd effaith fwy anuniongyrchol ar eraill fel Gweithgynhyrchu ac Adeiladu, lle mae newidiadau yn y cyflenwad a'r galw byd-eang, a phwysau eraill y farchnad wedi effeithio ar y sector yn Sir Gaerfyrddin.
- 2.3.9 Er gwaethaf y cynnydd amlwg mewn gweithgarwch yn y sector lechyd sy'n gysylltiedig â COVID-19, mae gweithgarwch cyffredinol wedi gostwng wrth i bobl gael eu hannog i beidio â gweld meddyg teulu ac wrth i lawdriniaethau arferol gael eu gohirio mewn ymateb i COVID-19.

Lleoedd

- 2.3.10 Bydd effeithiau COVID-19 wedi effeithio ar rai lleoedd yn fwy nag eraill. Canfu dadansoddiad gan CLES fod 30% o 'gwmnïau ar gau' yn ystod y cyfyngiadau symud wedi'u lleoli mewn ardaloedd yn Sir Gaerfyrddin sydd ymysg y wardiau mwyaf difreintiedig.⁵ Mae astudiaeth gan Centre for Towns wedi dadansoddi effaith mesurau'r cyfyngiadau symud ar drefi yng Nghymru a Lloegr ac roedd Llanelli wedi'i rhestru yn yr 20 uchaf o drefi mwyaf agored i niwed yn y DU.⁶
- 2.3.11 Er gwaethaf hyn, ceir tystiolaeth bod trefi amlswyddogaethol a lleol wedi'u hynysu'n gymharol, gyda rhai sectorau'n elwa o dwf mewn gwariant a gweithgarwch lleol. I'r gwrthwyneb, mae rhai astudiaethau hefyd wedi dangos bod lleoedd sy'n arbennig o ddibynnol ar dwristiaeth a lletygarwch fel Talacharn wedi teimlo'r effaith ar lefelau llawer uwch.⁷
- 2.3.12 Mae llawer o drafod am yr effeithiau economaidd ar ganol trefi o ganlyniad yn bennaf i dueddiadau strwythurol wedi'u cyflymu. Yn sicr, mae'r pandemig wedi gweld heriau ac anawsterau mawr i fanwerthwyr cenedlaethol, y mae llawer ohonynt wedi cau siopau ynghyd â newid parhaus i siopa ar-lein er bod rhywfaint o dwf wedi digwydd mewn gwasanaethau na allwch eu prynu ar-lein e.e. harddwch.
- 2.3.13 Mae arwyddion hefyd o chwyddiant prisiau tai sy'n adlewyrchu'r galw cynyddol i symud i ardaloedd llai, mwy gwledig, gan fod y cyfyngiadau symud a gweithio gartref yn golygu bod pobl yn symud o gartrefi llai mewn ardaloedd trefol mwy prysur. Bydd hyn yn cael effeithiau cadarnhaol a negyddol, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae fforddiadwyedd eisoes yn peri pryder.

⁵Cynyddu Cyfoeth Cymunedau yn Sir Gaerfyrddin – hyrwyddo caffael blaengar, CLES (2020)

⁶Effaith pandemig COVID-19 ar ein trefi a'n dinasoedd, Centre for Towns (2020)

⁷Effaith economaidd COVID-19 ar Ddeg Tref Sir Gaerfyrddin, Owen Davies Consulting (2020)

- 2.3.14 Fodd bynnag, bydd COVID-19 a Brexit yn effeithio waethaf ar y lleoedd hynny sydd eisoes yn agored i ergydion economaidd ac sy'n dioddef lefelau uchel o amddifadedd. Mae natur wledig ac arfordirol y sir yn golygu y gallai fod yn waeth yn yr ardaloedd hyn.

2.4 Yr heriau sylfaenol

- 2.4.1 Arweinir adfywiad strategol Sir Gaerfyrddin gan ein Cynllun Trawsnewid a Strategaeth Dinas-ranbarth Bae Abertawe.⁸⁹ Yn 2019, lluniodd Grŵp Gorchwyl Materion Gwledig y Cyngor adroddiad ac argymhellion ar amrywiaeth o flaenoriaethau ar gyfer adfywio'r cymunedau gwledig¹⁰. Yn ogystal â'r heriau uniongyrchol yn sgil COVID-19, mae'r strategaethau hyn yn parhau i ddarparu'r weledigaeth a'r cyfeiriad strategol tymor hwy ar gyfer adfywio economaidd i'r Sir ac i nodi'r heriau a'r cyfleoedd sylfaenol a wynebwr gan Sir Gaerfyrddin, a fydd yn effeithio ar adferiad a thwf economaidd, sy'n cynnwys ymysg eraill:
- Cynhyrchiant a chyflogau isel;
 - Pwysau'r farchnad lafur, diffygion sgiliau - 'mudo ymenyddol' a phoblogaeth sy'n heneiddio;
 - Nid oes digon o fusnesau newydd a thwf cwmnïau sydd wedi'u gwreiddio;
 - Cyfraddau dechrau busnes isel;
 - Seilwaith a chysylltedd - band eang, ffyrdd, rheilffyrdd, trafnidiaeth gyhoeddus;
 - Diffyg seilwaith busnes modern, datblygiad hapfasnachol, bylchau hyfywedd;
 - Fforddiadwyedd ac argaeledd cartrefi;
 - Nid oes gan gymunedau difreintiedig gyfleoedd a manteision twf economaidd;
 - Economiâu canol trefi sy'n dirywio/oil-leoli.
- 2.4.2 Gwaethygydd llawer o'r materion craidd hyn gan COVID-19 sydd hefyd wedi effeithio ar y dyheadau ar gyfer cynhwysiant cymdeithasol h.y. gan fod llai o swyddi ar gael, bydd y rhai sydd eisoes wedi'u heithrio/sydd â sgiliau isel yn ei chael hi'n anos cael swydd.

⁸⁹Cynllun adfywio strategol ar gyfer Sir Gaerfyrddin 2015-2030 – Trawsnewidiadau, CSC, (2015)

⁹Strategaeth Adfywio Economaidd Dinas-ranbarth Bae Abertawe 2013-2030

¹⁰Symud Sir Gâr Wledig Ymlaen, CSC (Mehefin 2019)

3 Mesur Effeithiau Posibl COVID-19

- 3.0.1 Rydym wedi modelu effaith bosibl argyfwng COVID-19 ar Sir Gaerfyrddin a'i thair prif dref. Crynhoir yr effeithiau posibl isod ac fe'u nodir yn fanylach yn **adroddiad Modelu Effaith Covid-19¹¹**.

3.1 Cefndir


- 3.1.1 Mae effaith yr argyfwng wedi'i modelu o ran Gwerth Ychwanegol Gros (GYG), sy'n fesur o'r gwerth ychwanegol cyffredinol yn yr economi, a chyflogaeth. Hefyd, mae GYG fesul gweithiwr yn darparu mesur o gynhyrchiant yr economi, sy'n helpu i bennu cyflogau lleol. Er nad yw GYG a chynhyrchiant yn mesur cynwysoldeb economi'n uniongyrchol, maent yn ddefnyddiol o ran nodi a yw cyflogau ac ansawdd bywyd yn gwella neu'n gwaethygu.
- 3.1.2 Cyn argyfwng COVID-19, roedd cyfradd y twf mewn GYG ar gyfradd y newid yn y DU neu'n uwch, ac yn uwch na chyfradd Cymru. Fodd bynnag, roedd GYG y pen (o'r boblogaeth breswyl) yn parhau i fod yn is na lefelau'r DU a Chymru. Roedd cyflogaeth yn Sir Gaerfyrddin wedi bod yn cynyddu ar gyfradd uwch nag yng Nghymru a'r DU tan 2017 ond ers hynny mae wedi disgyn yn is na'r meincnodau hyn.

3.2 Yr effaith wedi'i modelu

- 3.2.1 Mae ein modelu yn dangos amrywiaeth o senarios posibl ar gyfer effaith COVID-19 ar economi Sir Gaerfyrddin, yn seiliedig ar ragolygon ar lefel y DU. Dengys Ffigur 4 isod fod GYG wedi gostwng yn hanner cyntaf 2020, wedi gwella'n rhannol, ac mae'n debygol o ostwng eto ddiwedd 2020 cyn gwella'n raddol. Dim ond o dan y senario mwyaf cadarnhaol y bydd GYG yn gwella i'w lefel cyn y pandemig yn ystod y tair blynedd nesaf.


¹¹Modelu Effaith Covid-19, Hardisty Jones, Tachwedd 2020

Ffigur 4 - Cyfanswm Amcanestyniadau GYG




3.2.2 Nid yw ffigurau cyflogaeth yn gostwng mor sylweddol â GYG yn y tymor byr gan fod cynlluniau cymorth y Llywodraeth yn helpu cyflogwyr i gadw pobl mewn cyflogaeth. Felly, gohirir y gostyngiad mwyaf mewn cyflogaeth tan Ch4 2021 (gweler Ffigur 5) pan fydd cynlluniau'r Llywodraeth yn dod i ben. Fel gyda GYG, mae posibilrwydd na fydd cyflogaeth yn gwella i'r lefelau cyn y pandemig o fewn yr amserlen dan sylw.

Ffigur 5 - Cyfanswm Amcanestyniadau Cyflogaeth



3.2.3 Mae Ffigur 6 yn dangos y berthynas rhwng GYG a chyflogaeth o dan y senario canolog wedi'i fodelu¹². Mae GYG yn amrywio llawer mwy na chyflogaeth yn 2020 a 2021 gan ei fod yn llawer mwy adweithiol i'r amodau economaidd presennol, yn enwedig o ystyried ymyrraeth y Llywodraeth yn y farchnad lafur. O ganlyniad i gymorth y Llywodraeth, mae cynhyrchiant yn gostwng yn 2020 a 2021. Yn dilyn y cyfnod hwn, rhagwelir y bydd cynhyrchiant yn cynyddu'n araf, sy'n cyd-fynd â rhagolygon macroeconomaidd nodweddiadol.


Ffigur 6 - Y Newid wedi'i Fynegeo mewn GYG a Chyflogaeth yn Sir Gaerfyrddin o dan y Senario Canolog



3.2.4 Mae'r newid mewn cyflogaeth o dan y senario modelu canolog i'w weld yn Ffigur 7. Mae hyn yn dangos bod y gostyngiadau mwyaf mewn cyflogaeth yn digwydd mewn Llety a Gwasanaethau Bwyd, Cyfanwerthu, Manwerthu a Masnachau Moduron a Gweithgynhyrchu. Prin yw'r sectorau sy'n gweld twf mewn cyflogaeth o gymharu â 2019.


¹²Mae'r duedd yr un fath o dan bob un o'r senarios modelu

Ffigur 7 - Gwahaniaeth mewn Cyflogaeth o Ch4 2019 o dan y Senario Canolog



3.2.5 Cyfrifwyd amcangyfrif o nifer y busnesau sydd mewn perygl o gau gan ddefnyddio Arolwg y Swyddfa Ystadegau Gwladol ynghylch Effaith Coronafeirws ar Fusnes (BICS) Ton 15, lle gofynnwyd i fusnesau sgorio eu risg o ansolfedd. Caiff y canlyniadau hyn eu pwysoli i gynrychioli pob busnes yn y DU a'u dangos yn Ffigur 8.

Ffigur 8 - Busnesau sydd mewn Perygl o Ansolfedd




3.3 Negeseuon Allweddol o'r Modelu

- 3.3.1 Mae'r effaith ar economi gyffredinol Sir Gaerfyrddin (gan ddefnyddio GYG fel mesur o hyn) wedi bod yn sylweddol, a cheir effeithiau ar draws ystod eang o sectorau. Mae'r effaith ar gyflogaeth, er ei bod yn sylweddol, wedi'i lleihau gan ymyrraeth Llywodraeth y DU, ond mae'n debygol o waethygu ar ddiwedd 2021 wrth i gymorth y Llywodraeth ar gyfer cyflogaeth gael ei leihau.
- 3.3.2 Mae'n ymddangos bod cynhyrchiant (wedi'i fesul fel GYG fesul gweithiwr) wedi gostwng, gan fod cyflogaeth wedi'i chefnogi gan ymyrraeth y Llywodraeth tra bod GYG wedi gostwng. Wrth i gyflogaeth a GYG symud yn ôl i aliniad, bydd y prif fesur cynhyrchiant hwn yn gwella'n araf dros amser. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod cynhyrchiant sylfaenol wedi cynyddu dros dro, gan fod effaith fwyaf COVID-19 wedi bod ar sectorau â lefel gymharol isel o gynhyrchiant (e.e. Manwerthu, Bwyd a Diod a Llety) tra bod sectorau cynhyrchiant uwch (e.e. Gwasanaethau Proffesiynol) wedi parhau i weithredu gyda llai o effaith drwy nifer o gyfnodau o gyfyngiadau symud. Unwaith eto, nid yw hon yn duedd gynaliadwy yn y tymor hwy a dylai cynhyrchiant dueddu'n ôl tuag at y lefel cyn COVID-19, er gwaethaf unrhyw effeithiau strwythurol (neu greithiau economaidd).
- 3.3.3 Bydd yr adferiad yn araf, ac mae'n bosibl y bydd yn cymryd blynyddoedd lawer i economi Sir Gaerfyrddin wella i'w lefel flaenorol, heb sôn am wneud iawn am effaith argyfwng COVID-19 a'i ganlyniadau.

Busnesau Newydd

- 3.3.4 Yn ogystal â'r modelu, rydym wedi archwilio cyfraddau dechrau busnes cyn y pandemig. O'i gymharu â'r rhanbarth a gweddill Cymru mae twf busnesau newydd yn Sir Gaerfyrddin wedi gweld dirywiad bach yn y blynyddoedd diwethaf.
- 3.3.5 Gyda nifer gymharol uchel o fusnesau bach eisoes, a goruchafiaeth y sector cyhoeddus a nifer y cyflogwyr mawr yn y Sir, byddai disgwyl i gyfraddau busnesau newydd fod ar lefel wahanol na mewn mannau eraill yn y rhanbarth er bod potensial ar gyfer twf.
- 3.3.6 Ers y pandemig, ar lefel y DU bu twf digid dwbl yn nifer y cofrestrïadau busnes ers mis Mehefin 2020. Credir bod hyn wedi'i sbarduno gan entrepreneuriaid sy'n ymateb i anghenion unigolion a chwmnïau sy'n newid yn gyflym, a hefyd o ganlyniad i bobl sydd wedi dod yn ddi-waith sy'n lansio eu mentrau eu hunain. Yn Sir Gaerfyrddin byddai disgwyl i'r dirwasgiad sbarduno twf mewn cyfraddau busnesau newydd, ond wrth i'r economi ymadfer eto byddai disgwyl i gyfradd y twf leihau hefyd.


Ffigur 9 – Cyfraddau Busnesau Newydd (mynegai 2015)



4 Ein Cynllun Adfer

- 4.0.1 Gan wybod sut y mae COVID-19 wedi effeithio ar economi Sir Gaerfyrddin a sut y mae'n debygol o barhau i effeithio arni, mae ein Cynllun yn canolbwyntio ar y cyfnod adfer tyngedfennol dros y 24 mis nesaf. Mae lefel uchel o ansicrwydd o hyd ynghylch patrwm yr adferiad, yn ogystal â chanlyniad terfynol trafodaethau Brexit, felly mae ein Cynllun yn fyrdymor, yn hyblyg ac yn unol â blaenoriaethau ail-greu Llywodraeth Cymru. Bydd ein Cynllun a'n blaenoriaethau hefyd yn llywio twf tymor hwy Sir Gaerfyrddin ac yn llywio'r gwaith presennol i lunio Fframwaith Economaidd Rhanbarthol De-orllewin Cymru a'r Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol newydd yn ystod chwarter cyntaf 2021.
- 4.0.2 Bydd y Cynllun hwn yn llywio adferiad economaidd Sir Gaerfyrddin o COVID-19, a'r newid tuag at dwf economaidd tymor hwy. Mae hyn yn golygu mynd i'r afael ag effeithiau uniongyrchol COVID-19, a Brexit, ond hefyd yr heriau sylfaenol sydd wedi cyfyngu ar dwf yn economi'r Sir.
- 4.0.3 Rydym yn canolbwyntio ar dair thema gyffredinol sy'n adlewyrchu'r synergedd yn ein cynllun adfer cychwynnol a byddwn yn canolbwyntio ar bedair uchelgais drawsbynciol sy'n ganolog i'n camau gweithredu.

Ffigur 10 – Themâu Trosfwaol ac Uchelgeisiau Blaenoriaeth Trawsbynciol



Themâu

- **Busnesau** - diogelu ein busnesau presennol, cefnogi busnesau newydd a busnesau sy'n tyfu yn ein sectorau sylfaenol a thwf i ddod yn fwy cynhyrchiol a chystadleuol.
- **Pobl** - diogelu swyddi, ymateb i ddiweithdra disgwylledig sylweddol, helpu pobl i ennill y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y swyddi a fydd yn bodoli, a chreu cyflogaeth newydd a sgiliau gwell.
- **Lleoedd** – sicrhau dosbarthiad teg o gyfleoedd drwy addasu a buddsoddi yn seilwaith ein hardaloedd twf strategol, canol trefi, yr economi wledig ac adfywio ein cymunedau mwyaf difreintiedig.

Blaenoriaethau Trawsbynciol

- **Cysylltedd digidol cyflym a dibynadwy iawn, diwylliant a sgiliau** - rydym yn arwain yn ein rhanbarth y Prosiect Seilwaith Digidol gwerth £55m sy'n gwella ac yn nodi atebion traddodiadol ac amgen i'r broblem. Ac er ein bod wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran nodi problemau cysylltedd ar draws Sir Gaerfyrddin, rydym yn parhau i werthuso a deall y farchnad delathrebu ac yn ymyrryd i wella cysylltedd digidol ar draws ein Sir yn awr ac ar gyfer y dyfodol. Gallwn fod yn hyderus mai prin yw'r rhesymau pam na all ein preswylwyr a'n busnesau weithredu a chystadlu yn yr economi fyd-eang yn y dyfodol gan barhau i fod wedi'u lleoli yn Sir Gaerfyrddin gyda lefel dderbyniol o gysylltedd digidol, ac rydym yn gweithio tuag at y targed o gysylltedd gigabit sy'n addas ar gyfer y dyfodol ar gyfer y tymor canolig i'r hirdymor.
- **Sgiliau** - Byddwn yn helpu i baru pobl â'r cyfleoedd gwaith sydd ar gael, a bydd hyn yn cynnwys elfen o ddysgu sgiliau newydd neu uwchsgilio, cynnig cymorth cyflogaeth, creu llif gweithlu ar gyfer y dyfodol a chefnogi unigolion i ailhyfforddi ar gyfer rolau perthnasol. Byddwn yn helpu preswylwyr i ennill y sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer swyddi mewn busnesau a sectorau sy'n tyfu. Byddwn hefyd yn gweithio gyda chyflogwyr yn y sectorau twf i nodi eu hanghenion o ran cyflogaeth a sgiliau yn y dyfodol.
- **Economi werdd** - byddwn yn parhau i fuddsoddi yn y defnydd eang o fesurau effeithlonrwydd ynni sy'n allweddol i gyflawni ein hymrwymiad i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Bydd ein blaenoriaethu o fesurau arbed ynni drwy ôl-ffitio yn helpu i ddatblygu sgiliau'r diwydiant adeiladu a thechnoleg adnewyddadwy. Mae ein dyheadau hefyd yn cynnwys cynyddu cyfleoedd i droi gwastraff yn ynni a nifer fwy o gynlluniau ynni cymunedol.
- **Twf sy'n deg, yn gyfartal ac yn cefnogi'r Gymraeg a diwylliant Cymru** - rydym wedi ymrwymo i gyflogaeth leol, teg, addas a diogel ac yn hyrwyddo entrepreneuriaeth, twf busnes, tai fforddiadwy a gwytnwch cymunedol yn ein cymunedau Cymraeg. At hynny, er mwyn cydnabod y ddynwedd newidiol sy'n ymwneud â lle mae pobl yn dewis byw a gweithio, byddwn yn annog busnesau a phobl sy'n symud i ardaloedd gwledig i werthfawrogi a defnyddio'r Gymraeg.

4.0.4 Agwedd sylfaenol ar adferiad economaidd a'r newid tuag at economi gwerth uwch a mwy cynhwysol fydd codi cynhyrchiant (wedi'i fesur fel GYG, neu werth ychwanegol, fesul gweithiwr). Bydd busnesau sydd â chynhyrchiant uwch yn gallu talu cyflogau uwch, gan arwain at lefelau uwch o ffyniant i Sir Gaerfyrddin gyfan. Y ddau ddull sylfaenol o gynyddu GYG a chynhyrchiant, y gellir eu cyflawni ar yr un pryd, yw:

- **Cynyddu cynhyrchiant ar draws pob sector o'r economi** gan gynnwys cymorth ar gyfer 'lleoliaeth' a'r economi sylfaenol e.e. drwy gynyddu sgiliau, buddsoddi cyfalaf, mwy a gwell defnydd o dechnoleg a gwell seilwaith; a

- **Cynyddu maint y sectorau cynhyrchiant uchel/cyflogau uchel/twf uchel** neu is-sectorau'r economi, fel eu bod yn gwneud mwy o weithgarwch ac yn cyflogi mwy o bobl leol. Dylai'r rhain fod yn sectorau lle mae gan economi Sir Gaerfyrddin fantais gystadleuol (h.y. Mae Sir Gaerfyrddin yn lle gwell na rhywle arall i wneud busnes yn y sectorau hyn).

- 4.0.5 Mae ein dull o ymdrin â lleoliaeth yn seiliedig ar adeiladu cymunedau cryf, cynaliadwy a gwydn a chryfhau'r economi sylfaenol drwy fusnesau lleol, dyfeisgarwch lleol a chefnogaeth leol. Ar y lefel hon, effaith fwyaf COVID-19 fu ar sectorau â lefel gymharol isel o gynhyrchiant sydd serch hynny o bwys allweddol i'n hadferiad, ac sy'n cynnwys busnesau ym maes **manwerthu, bwyd a diod, twristiaeth/llety a diwylliant**.
- 4.0.6 Ar adeg yr adroddiad hwn mae pryderon cynyddol am y sector bwyd a'r gadwyn gyflenwi sy'n dioddef yn sylweddol ochr yn ochr â chau'r sector lletygarwch. Mae diogelu'r diwydiant a'n cwmnïau mwy sy'n ganolog i'r gadwyn gyflenwi cynnyrch a'r fasnach lletygarwch yn flaenoriaeth i'n sector economi sylfaenol.
- 4.0.7 Mae ein sectorau allweddol sydd â mwy o botensial ar gyfer cynhyrchiant uwch, cyflogau uwch a lefelau twf uwch yn debygol o fod wedi teimlo llai o effaith ond maent yn hanfodol ar gyfer cynyddu maint ein heconomi a chyflogi mwy o bobl – **gweithgynhyrchu uwch, diwydiannau creadigol, economi werdd, iechyd, gofal a gwyddor bywyd ac amaethyddiaeth a chynhyrchu bwyd**. Mae'r ddau sector olaf hyn (is-sectorau pob un) yn dod o fewn economïau sylfaenol a thwf uchel.

Ffigur 11 – Nodweddion Twf Lleol ac Uchel

Lleoliaeth/economi sylfaenol	Sectorau cystadleuol twf uchel
• Twf a datblygiad microfusnesau a busnesau bach • Adeiladu cymunedau cynaliadwy a gwydn cryf • Atebion nes at adref • Cyflogaeth leol â chyflog gwell • Cryfhau cadwyni cyflenwi a chaffael lleol • Arloesi drwy'r brifysgol/sefydliadau lleol • Trawsnewid sectorau yr effeithir arnynt yn sylweddol - manwerthu, lletygarwch, twristiaeth, diwylliant - i addasu a dod o hyd i farchnadoedd newydd	• Gweithgarwch â ffocws sy'n cefnogi'r sectorau hyn • Datblygu cwmnïau canolog wedi'u gwreiddio • Deunyddiau uwch a gweithgynhyrchu. • Diwydiannau creadigol - Cyfryngau Cymraeg • Economi werdd gan gynnwys ynni carbon isel a lleihau carbon. • Iechyd, gofal a gwyddor bywyd. • Amaethyddiaeth, cynhyrchu a phrosesu bwyd.

- **Technoleg werdd a chartrefi sy'n defnyddio ynni'n effeithlon**

- 4.0.8 Bydd y rhan fwyaf o'r camau gweithredu a nodir yn y Cynllun hwn yn helpu o ran adferiad a thwf GYG a chynhyrchiant ar draws pob sector o'r economi, yn rhannau sylfaenol a thwf uchel yr economi. Fodd bynnag, ym mhob maes gweithgarwch mae lle i gynnwys rhywfaint o weithgarwch newydd a phenodol sy'n cefnogi ein sectorau cystadleuol sylfaenol a thwf uchel targed. Gydag adnoddau cyfyngedig, mae'n iawn bod ein Cynllun yn penderfynu ble i ganolbwyntio ein hymdrechion a'n hadnoddau ac yn esbonio pam.
- 4.0.9 Mae'r tabl canlynol yn nodi sut y bydd ein camau gweithredu i gefnogi'r adferiad a'r twf hefyd yn wahanol wrth i ni ailgychwyn, adfywio ac adnewyddu economi Sir Gaerfyrddin yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Ffigur 12 – Amcanion adfer

CYFYNGIADAU SYMUD	AILGYCHWYN	ADFYWIO	ADNEWYDDU
Lleihau effeithiau negyddol • Lleihau colli busnesau, swyddi a chynhyrchiant	Cefnogi busnesau a'r gweithlu • Ailagor busnesau • Cael pobl newydd ddi-waith yn ôl i'r gwaith • Ailhyfforddi pobl ddi-waith ar gyfer cyfleoedd sydd ar gael • Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac eithrio • Sicrhau bod busnesau a lleoedd yn addasu i fesurau cadw pellter cymdeithasol • Hyrwyddo digidol • Caffael yn y sector cyhoeddus	Cyflymu adferiad drwy ymyriadau lleol • Dechrau adeiladu economi gryfach, tecach a mwy gwyrdd • Mynediad digidol a seilwaith • Cymorth ar gyfer sectorau sylfaenol a thwf • Caffael yn y sector cyhoeddus a datblygu'r gadwyn gyflenwi ar draws sectorau • Hyrwyddo twf economaidd (GYG) • Creu swyddi newydd • Hyfforddi pobl i gael swyddi • Hybu menter a chefnogi twf mewn ardaloedd sydd â chyfran fawr o siaradwyr Cymraeg	Symud i economi newydd (gwell) • GYG a chynhyrchiant uwch • Swyddi o ansawdd gwell • Arloesi ac ymchwil a datblygu • Economi carbon isel • Mynediad digidol a seilwaith • Caffael yn y sector cyhoeddus a datblygu'r gadwyn gyflenwi ar draws sectorau • Lleihau allyriadau carbon • Ail-lunio canol trefi ac adfywio'r cymunedau sydd wedi'u gadael ar ôl • Cyflawni prosiectau cyfalaf mawr a seilwaith a mwy o dai fforddiadwy • Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac eithrio

4.1 Deall anghenion ein sectorau targed

- 4.1.1 Rydym wedi nodi nifer o sectorau, uchod, sy'n bwysig i'n heconomi leol a lle mae gan Sir Gaerfyrddin fantais gystadleuol, a fydd yn helpu i sbarduno adferiad a thwff yn yr economi leol yn y dyfodol.
- 4.1.2 Mae o leiaf ddau o'r sectorau hyn yn pontio'r economi sylfaenol a'r economi twf uchel (Amaethyddiaeth ac Iechyd), ac mae dau yn canolbwyntio mwy ar yr economi twf uchel (Creadigol a'r Economi Werdd).
- 4.1.3 Cam cyntaf pwysig ein Cynllun fydd deall anghenion y sectorau targed a thwff uchel hyn. Mae hyn yn golygu sefydlu trefniadau cyfathrebu rheolaidd â grwpiau sy'n cynrychioli'r sectorau hyn drwy bartneriaethau a fforymau sy'n bodoli eisoes, neu helpu i sefydlu cynrychiolydd ar gyfer pob sector o fewn y strwythurau presennol hyn. Mae'r rhain yn cynnwys:
- Llywodraeth Cymru
 - Busnes Cymru
 - Y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol
 - Targedau ymgysylltu â busnes twf uchel (rhestr darged wedi'i diweddaru)
 - Fforwm Cyngori ar Fusnes (ehangu a chynnwys cynrychiolaeth busnesau bach a chanolig/sector targed)
 - Grŵp Sector Amaethyddol
 - Timau Ardal Gymunedol CSC
 - Asiantaethau menter e.e. Antur Cymru, Menter a Busnes, SBF
- 4.1.4 Byddwn yn adolygu cyfansoddiad ein fforymau Cyngori ar Fusnes a'r Sector Amaeth ac yn ystyried a fyddai un grŵp busnes strategol ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn gwella deialog reolaidd gyda phob sector a graddfa i ddeall eu hanghenion, eu cyfleoedd, eu rhwystrau i dwf, gofynion sgiliau, gofynion eiddo ac yn y blaen.
- 4.1.5 Mae ein sectorau twf targed yn drawsbynciol gyda'n tair prif thema, sef busnes, pobl a lleoedd; felly, rydym yn cynnwys ffocws penodol yn y Cynllun hwn ar y sectorau hyn.

4.2 Canlyniadau ein cynllun adfer

- 4.2.1 Mae angen i ni adfer y gweithgarwch economaidd sydd eisoes wedi'i golli yn ystod yr argyfwng a lleihau a gwrthdroi colledion pellach. Uchelgais fwy ymestynnol yw creu rhywfaint neu'r cyfan o'r twf y byddem wedi'i ddisgwyl pe na bai argyfwng Covid-19 wedi digwydd, a phe bai Brexit caled wedi'i osgoi. Mae ein modelu, a grynhoir yn Adran 2, yn dangos bod angen i ni greu mwy na 3,000 o swyddi yn Sir Gaerfyrddin i gymryd lle'r swyddi a gollwyd yn hanner cyntaf 2020 a bron £200 miliwn o GYG a gollwyd. Mae swyddi wedi'u colli ers hynny, ac

mae'n bosibl y bydd llawer o swyddi sydd ar ffyrlo ar hyn o bryd yn cael eu colli ar ôl i gymorth y Llywodraeth gael ei dynnu'n ôl. Yn ein senario canolog mae angen diogelu mwy na 7,000 yn fwy o swyddi, neu greu rhai newydd yn eu lle os cânt eu colli, sy'n codi i fwy na 10,000 o swyddi yn ein senario waethaf. Mae perygl i ni golli o leiaf £650 miliwn o GYG, a mwy nag £1.5 biliwn yn y senario waethaf. Bydd diogelu a chreu swyddi yn helpu i leihau'r golled hon.

- 4.2.2 Mae ein modelu'n awgrymu bod dros 1,400 o fusnesau yn Sir Gaerfyrddin mewn perygl o ansolfedd, felly mae angen i ni eu cefnogi. Mae cefnogi'r busnesau hyn i oroesi ac wedyn tyfu yn helpu i ddiogelu a chreu'r gyflogaeth a nodir uchod.

Ffigur 13 – Targedau adfer

3,000 O SWYDDI	- Creu swyddi newydd i gymryd lle'r rhai sydd eisoes wedi'u colli
10,000 O SWYDDI	- Diogelu a disodli'r rhai a allai fod wedi colli neu mewn perygl o gael eu colli
1,400 O FUSNESAU	- Cefnogi busnes sydd mewn perygl o ansolfedd
1,700 O SWYDDI	- Creu cyflogaeth ychwanegol uwchlaw ein lefelau cyn y pandemig

- 4.2.3 Mae yna bron 8,000 o fusnesau yn Sir Gaerfyrddin ac mae dros 90% ohonynt yn ficrofusnesau (h.y. gyda llai na 10 o weithwyr), felly mae angen i ni gefnogi'r busnesau hyn er mwyn cynnal, uwchraddio a thyfu ein heconomi. Mae gennym hefyd dros 10,000 o bobl hunangyflogedig y mae angen cymorth arnynt i oroesi a ffynnu mewn busnes.
- 4.2.4 Yn ogystal, pe bai'r taflwybr twf cyn yr argyfwng wedi parhau dros y cyfnod hyd at ddiwedd 2023, byddai 1,750 o swyddi ychwanegol wedi cael eu creu yn Sir Gaerfyrddin a byddai £500 miliwn o GYG ychwanegol. Targed ymestynnol fyddai creu rhai neu'r cyfan o'r swyddi hyn a'r GYG.
- 4.2.5 Nodir y camau sydd eu hangen i gyflawni'r targedau hyn yn yr adrannau canlynol ynghyd â'r canlyniadau thematig a ragwelir.

4.3 Busnesau - diogelu a chefnogi twf cynaliadwy

- 4.3.1 Rhaid i'n gweithgareddau cymorth busnes ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion busnesau yn ein sectorau twf targed. Er enghraifft:

Camau gweithredu cyntaf

- Bydd ein llinell gymorth ar gyfer cymorth busnes yn darparu gwasanaeth amlasiantaethol, di-dor gyda chyngor arbenigol sy'n diwallu anghenion ein sectorau targed.
- Byddwn yn adolygu ein hymgyssylltiad wedi'i dargedu â busnesau lleol er mwyn sicrhau bod y rhestr bresennol yn cynnwys cwmnïau yn ein sectorau twf, gan gynnwys busnesau bach a chanolig sydd â photensial twf uchel.
- Bydd ein Cronfeydd Adfer a Chymorth Busnes yn blaenoriaethu sectorau a busnesau targed sy'n dymuno tyfu drwy gyfleoedd caffael cyhoeddus yn y dyfodol.
- Byddwn yn nodi unigolion a microfusnesau sydd wedi disgyn drwy'r rhwyd o ran cymorth ariannol y Llywodraeth ac a elwir yn 'Eithriedig' ac yn asesu lefel y cymorth sy'n ofynnol drwy ein pecyn cymorth busnes.
- Byddwn yn lleihau'r rhwystrau i entrepreneuriaeth, yn darparu cymhellion ar gyfer busnesau newydd, ac yn rhoi hwb i botensial busnesau newydd.

I gael sylw yn y tymor hwy

- Bydd ein Cronfa Cychwyn Busnes yn blaenoriaethu sectorau targed.
 - Bydd ein Cronfa Mentrau Gwledig yn targedu Cynhyrchu a Phrosesu Bwyd.
 - Byddwn yn nodi llif o gyfleoedd caffael yn y sector cyhoeddus ac yn sicrhau bod busnesau lleol yn effro ac yn cael eu cefnogi i dargedu mwy o gontractau lleol.
 - Bydd ein Cronfa Tyfu Busnes yn cefnogi sectorau targed ac yn blaenoriaethu busnesau sydd â'r potensial i dargedu'r cyfleoedd caffael cyhoeddus hyn.
- 4.3.2 Cefnogir cynaliadwyedd tymor hwy ein sectorau targed gan nifer o brosiectau strategol sy'n helpu i ysgogi economi Sir Gaerfyrddin, tyfu sectorau allweddol, datblygu gweithwyr medrus a chadw pobl ifanc dalentog yn ein rhanbarth.
- Drwy Fargen Ddinesig Bae Abertawe rydym yn datblygu gwaith dylunio manwl ar gyfer camau Pentre Awel - gan gyfuno elfennau **academaidd, busnes, hamdden ac iechyd a gofal** mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Hywel Dda gan gynnwys cyfleusterau ar gyfer hyfforddiant gofal iechyd, ymchwil feddygol a threialon clinigol.
 - Bydd ymrwymïadau pellach yn helpu i barhau i gyflawni ac ehangu ein gweithgarwch yn y **diwydiant creadigol** gan ganolbwyntio ar Yr Egin – y

ganolfan ar gyfer y cyfryngau a diwylliant. Bydd ein cefnogaeth yn helpu gyda thwf busnesau newydd a datblygu'r gadwyn gyflenwi.

- Bydd cwblhau Prosiect Denu Twristiaid i Bentywyn yn rhoi hwb mawr i'r diwydiant twristiaeth a bydd yn allweddol ar gyfer twf **twristiaeth arfordirol a'r economi wledig**.
- Byddwn hefyd yn parhau i gefnogi arloesedd drwy Ganolfan Fenter y Goleudy yn Llanelli gyda chymorth busnes arbenigol 'y genhedlaeth nesaf' i alluogi **arloesi ac ymchwil a datblygu**, swyddfeydd a thir datblygu ar gyfer ehangu a thyfu.
- Byddwn yn cefnogi **twf glân** ac arallgyfeirio busnesau i feysydd megis ynni adnewyddadwy a datblygu'r gadwyn gyflenwi ar gyfer tai fforddiadwy carbon isel a mesurau ôl-ffitio datgarboneiddio i stoc bresennol y Cyngor. Bydd hyn yn helpu gyda chynaliadwyedd hirdymor y sectorau gwerth uchel hyn yn Sir Gaerfyrddin.
- Mae buddsoddiad ym Mharth Bwyd a Safle Strategol Dwyrain Cross Hands yn cefnogi twf **gwyddor bywyd, gweithgynhyrchu uwch, technolegau amgylcheddol, creadigol a bwyd-amaeth**
- Bydd rhaglen **seilwaith digidol** y Fargen Ddinesig o fudd i breswylwyr a busnesau ym mhob rhan o Sir Gaerfyrddin a bydd yn helpu i sicrhau bod gan ddinasoedd, trefi a pharciau busnes y rhanbarth fynediad cystadleuol at gysylltedd ffibr llawn.
- Bydd y cynlluniau twf economaidd ac adfywio ar gyfer canol ein prif trefi, 'Deg Tref' wledig a buddsoddi mewn brandio a marchnata Darganfod Sir Gâr yn cefnogi sectorau **manwerthu, lletygarwch ac economi ymwelwyr**.

4.4 Pobl – cefnogi pobl ddi-waith a dychwelyd i'r gwaith

- 4.4.1 Bydd ein cefnogaeth i bobl yn Sir Gaerfyrddin yn sicrhau eu bod mewn sefyllfa dda i gefnogi adferiad a thwf ein sectorau twf targed. Bydd y camau hyn yn cefnogi'n benodol y cynnydd disgwyliedig a sylweddol mewn diweithdra a'r her o roi pobl mewn gwaith.

Camau gweithredu cyntaf

- 4.4.2 Gan adeiladu ar ein profiad o ddarparu rhaglenni cyflogadwyedd lleol a'n gwybodaeth am fusnesau lleol byddwn yn ceisio cydgysylltu pecyn cynhwysfawr o gymorth ar draws partneriaid gan gynnwys Cymru'n Gweithio (Gyrfa Cymru) a'r Ganolfan Byd Gwaith. Rydym yn gwybod bod nifer o fentrau cyflogadwyedd gyda meini prawf cymhwysedd a phwyntiau mynediad gwahanol a thrwy wasanaethau brysbennu Sir Gaerfyrddin mae gennym hanes o weithio i gydgyssylltu atgyfeiriadau ar draws sawl asiantaeth. Cyn y pandemig, roedd Hwb Llanelli yn fodel a oedd yn profi manteision cydleoli a gweithio mewn partneriaeth rhwng asiantaethau cyflogaeth sy'n gallu cyfarfod mewn un

adeilad. Byddwn yn ymchwilio i sut i barhau â'r patrymau gwaith a'r cydweithrediadau hyn gan gynnwys cryfhau allgymorth yng nghanolfannau Hwb Caerfyrddin a Rhydaman.

- 4.4.3 Drwy'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol byddwn yn nodi sgiliau gweithlu sectorau targed a diffygion hyfforddiant ac yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn neilltuo arian i ddatblygu'r anghenion penodol hyn yn Sir Gaerfyrddin.
- 4.4.4 Byddwn yn arwain busnesau drwy'r broses Kickstart, a chyda'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol a darparwyr hyfforddiant byddwn yn sicrhau bod cymorth prentisiaeth/hyfforddeiaeth ar gael. A lle mae swyddi mewn perygl, byddwn yn blaenoriaethu cymorth ychwanegol i'r rhai sydd â sgiliau a phrofiad sydd mewn angen yn ein sectorau targed.

I gael sylw yn y tymor hwy

- 4.4.5 Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol i sicrhau bod anghenion sgiliau ein sectorau twf targed yn cael eu cydnabod, a bod camau gweithredu yn y Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol yn diwallu eu hanghenion. Mae gorgyffwrdd sylweddol hefyd rhwng ein sectorau targed a menter sgiliau a thalent Bargen Ddinesig Bae Abertawe gan gynnwys:
- sicrhau bod atebion addysg a hyfforddiant pwrpasol yn cyd-fynd â sectorau targed/themâu'r Fargen Ddinesig,
 - targedu uwchsgilio i'r rhai sydd mewn gwaith mewn sectorau targed, e.e. gwell sgiliau digidol,
 - sicrhau bod pobl hunangyflogedig, masnachwyr a microgwmnïau yn dod yn fwy gwydn gyda sgiliau busnes a hyder i dyfu e.e. cynllunio busnes, sgiliau digidol, marchnata.

4.5 Lleuedd – sicrhau tegwch a thwf cynhwysol

- 4.5.1 Lle y bo'n bosibl, byddwn yn sicrhau bod ein camau gweithredu sy'n seiliedig ar leoedd yn cefnogi anghenion y sectorau twf targed. O dan y pennawd Busnes uchod, trafodwyd yr angen i sicrhau bod ein hymyriadau eiddo busnes a buddsoddiadau'r Fargen Ddinesig yn diwallu anghenion ein sectorau targed, a bydd y rhain wedi'u halinio'n agos â'n hymyriadau eraill sy'n seiliedig ar leoedd. Mae enghreifftiau eraill o sut y byddwn yn cefnogi'r sectorau targed yn cynnwys:

Camau gweithredu cyntaf

- Byddwn yn cefnogi busnesau newydd a thwf yn y sector mewn ardaloedd gwledig drwy raglen adeiladu lle cyflogaeth.
- Bydd ein cynlluniau adfywio/twf ar gyfer canol ein trefi a'n trefi gwledig yn datblygu cynigion sy'n cefnogi ein sectorau targed.

- Bydd mentrau caffael ac ailddefnyddio eiddo yn cefnogi ein sectorau targed yn ogystal â darparu tai fforddiadwy.
- Bydd Gorchmynion Datblygu Lleol ar gyfer parthau cyflogaeth a chanol trefi yn rhoi mwy o hyblygrwydd ac yn cyflymu buddsoddiad i gefnogi sectorau a chartrefi newydd.
- Bydd gwelliannau i'r amgylchfyd cyhoeddus yn cefnogi amgylchedd busnes mwy diogel a deniadol ac yn helpu ein sectorau manwerthu, lletygarwch, ymwelwyr a diwylliannol i addasu a thyfu.
- Bydd marchnata cyrchfannau yn cefnogi twf gwerth uwch ein heconomi ymwelwyr, canol trefi ac yn pwysleisio dengarwch ar gyfer buddsoddi a lle i weithio.
- Bydd darparu tai carbon isel a mesurau ôl-ffitio datgarboneiddio yn hyrwyddo cynhesrwydd fforddiadwy (lleihau biliau'r cartref/cynyddu incwm gwario) a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i fusnesau lleol dyfu yn ein Heconomi Werdd. Byddwn hefyd yn mynd i'r afael â rhwystrau i dwf gan gynnwys uwchraddio cysylltiadau â'r grid a chyllid ar gyfer mesurau effeithlonrwydd ynni.
- Byddwn yn sicrhau bod buddsoddiadau mewn seilwaith ffisegol a digidol yn helpu i oresgyn y rhwystrau ac yn cefnogi twf mewn sectorau targed e.e. gan gynnwys prosiectau ffyrdd, rheilffyrdd a beicio strategol.

I gael sylw yn y tymor hwy

- 4.5.2 Bydd ein prosiectau strategol a drafodir uchod nid yn unig yn helpu i ysgogi adferiad yn economi Sir Gaerfyrddin ar lefel sectorau ond maent yn allweddol i sicrhau twf cynhwysol i bobl a gweithwyr, yn enwedig pobl ifanc yn ein sir.
- Bydd cysylltedd digidol ffibr llawn, twf glân tai carbon isel a buddsoddi mewn mesurau ôl-ffitio i arbed ynni yn cefnogi **economi Sir Gaerfyrddin ac yn hyrwyddo cymunedau cynaliadwy cryfach**. Yn yr un modd, bydd Darganfod Sir Gâr yn cefnogi marchnata a brandio'r sir o Fae Caerfyrddin yn y de i Fannau Brycheiniog Gorllewinol a Mynyddoedd Cambria yn y Gogledd.
 - Bydd y cynlluniau adfer a thwf ar gyfer **canol prif trefi a deg tref wledig** yn cefnogi manwerthu, lletygarwch ac economi ymwelwyr.
 - Yn **Llanelli** bydd ein buddsoddiad ym Mhentre Awel, meysydd academiaidd, busnes, hamdden ac iechyd a gofal a Chanolfan Fenter y Goleudy yn galluogi arloesi ac ymchwil a datblygu.
 - Yng **Nghaerfyrddin** mae gweithgarwch y diwydiant creadigol yn canolbwyntio ar Yr Egin.
 - Mae buddsoddiad ym **Mhentywyn** yn cefnogi twristiaeth arfordirol ac economi wledig yng ngorllewin Sir Gaerfyrddin.

- Mae Parth Bwyd a Safle Strategol Dwyrain **Cross Hands** yn cefnogi gwyddor bywyd, gweithgynhyrchu uwch, technolegau amgylcheddol, creadigol a bwyd-amaeth.
- Mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda wedi ymgynghori ar yr Ysbyty Cyffredinol newydd yn yr ardal rhwng Arberth a Sanclêr a bydd yn sbardun sylweddol i'r economi gyfan a'r sector iechyd yng **ngorllewin Sir Gaerfyrddin**.

4.6 Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer cyllid allanol

- 4.6.1 Mae'r dirwedd ariannol yn newid yn gyflym gan fod cyllid datblygu economaidd rhanbarthol o'r UE yn dod i ben, ac mae cronfeydd Ffyniant Gyffredin gan Lywodraeth y DU yn cael eu darparu yn lle hynny. Bydd y Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol a'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol yng Nghymru y cyfeirir ato yn Adran 1 yn sefydlu blaenoriaethau diwygiedig a phenderfyniadau ynghylch sut y caiff arian Llywodraeth Cymru ei ddosbarthu ar lefel ranbarthol ac awdurdod lleol. At hynny, mae'r rhan fwyaf o sefydliadau ariannu cenedlaethol wedi adolygu eu blaenoriaethau a'u rhaglenni yng ngoleuni'r pandemig.
- 4.6.2 Byddwn yn ail-greu'r profiad ariannu allanol sydd eisoes yn bodoli o fewn ein timau adfywio i gynyddu'r gwaith o gydlynu a nodi cyfleoedd ariannu allanol ar draws y Cyngor er mwyn sicrhau ein bod yn llwyddo i ddenu arian ychwanegol i Sir Gaerfyrddin. Byddwn hefyd yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid BGC a busnesau i sicrhau ein bod yn cefnogi ein gilydd i gael cyllid i gefnogi'r blaenoriaethau ar gyfer adferiad a thwf.

4.7 Crynodeb o'r camau gweithredu a'r canlyniadau.

- 4.7.1 Mae'r Cynllun yn cynnwys tua 30 o gamau gweithredu i gefnogi busnes, pobl a lleoedd. Mae'r rhan fwyaf o'r camau hyn eisoes yn digwydd gydag ymrwymiad ariannol ac adnoddau sylweddol gan y Cyngor. Mae'r Cynllun yn darparu'r ffocws ar gyfer eu cyflawni ac rydym wedi nodi lle mae angen datblygu camau gweithredu ymhellach, naill ai gyda'n partneriaid neu gydag adnoddau newydd.

Busnes

Cymorth Adfer Busnes

YMATEB	CYNNIG
Cronfeydd Adfer a Chymorth Busnes	Byddwn yn sefydlu Cronfa Adfer gwerth £0.5m i ddiogelu/creu swyddi cynaliadwy. Byddwn yn blaenoriaethu ein sectorau twf targed
	Byddwn yn sefydlu Cronfa Gymorth refeniw gwerth £0.2m i fuddsoddi mewn sgiliau, marchnata ac arallgyfeirio i ddiogelu a thyfu swyddi. Byddwn yn blaenoriaethu ein sectorau twf uchel Byddwn yn defnyddio'r gronfa hon i gefnogi busnesau i dargedu Cyfleoedd Caffael Cyhoeddus yn y dyfodol (gweler isod)

Tyfu busnes

YMATEB	CYNNIG
Cronfa ar gyfer Mentrau Gwledig	Byddwn yn dyrannu arian ychwanegol i'n Cronfa Mentrau Gwledig er mwyn i ni allu cefnogi busnesau sy'n creu swyddi o safon sy'n cefnogi cynhyrchu a phrosesu bwyd-amaeth â blaenoriaeth
Cronfeydd Tyfu Busnes	Byddwn yn dyrannu arian ychwanegol i'n Cronfa Tyfu Busnes sy'n targedu cymorth cyfalaf/refeniw ar gyfer ein sectorau twf targed. Byddwn yn defnyddio'r gronfa hon i gefnogi busnesau i dargedu Cyfleoedd Caffael Cyhoeddus yn y dyfodol
Cronfa Cychwyn Busnes	Gyda lefelau cynyddol o ddiddordeb mewn hunangyflogaeth a dechrau busnes newydd bydd ein cronfa yn targedu twf yn benodol yn ein sectorau blaenoriaeth
Cronfa Datblygu Eiddo Masnachol	Byddwn yn sefydlu pecyn cymorth gwerth £1m i gefnogi datblygwyr a pherchen-feddianwyr i fuddsoddi mewn adeiladu, ehangu ac adnewyddu eiddo. Byddwn yn blaenoriaethu'r gwaith o ddarparu safleoedd yn ein sectorau twf targed. Byddwn yn defnyddio'r gronfa hon i gefnogi busnesau i ddatblygu safleoedd i dargedu Cyfleoedd Caffael Cyhoeddus yn y dyfodol.
Rhaglen Lle Cyflogaeth	Byddwn yn buddsoddi £1m i ddarparu eiddo i fusnesau newydd a busnesau sy'n tyfu mewn ardaloedd gwledig sydd â hyfywedd gwael i'r sector preifat. Byddwn yn blaenoriaethu gosod i denantiaid yn ein sectorau twf targed
Eiddo diwydiannol a masnachol a reolir gan CSC	Lle profir bod angen, byddwn yn parhau i gefnogi tenantiaid ein hystad reoledig drwy renti tymor hyblyg a realistig.
Hybiau lle gwaith	Byddwn yn aildefnyddio/ailddatblygu asedau tir ac eiddo presennol yr awdurdod lleol i ddarparu lle a chymorth i ddeiliaid a busnesau yn y gymuned leol ehangach. Byddwn yn sicrhau bod ein hybiau'n diwallu anghenion ein sectorau twf targed ac yn aifuddsoddi incwm a gynhyrchir mewn cymorth ychwanegol i fusnesau.

Blaengynllunio cyfleoedd sydd ar y gweill	Byddwn yn sefydlu blaengynllun 3-5 mlynedd o gyfleoedd yn y sector cyhoeddus ac yn rhoi cymorth arbenigol i fusnesau lleol drwy ein tîm Datblygu Economaidd i baratoi a thargedu'r cyfleoedd hyn. Byddwn yn defnyddio ein targedau busnes Pareto a'n cronfeydd cymorth busnes ac eiddo i ddarparu pecyn cymorth integredig.
Contractau Gwerth Is	Byddwn yn adolygu'r cyfle i sicrhau bod cwmnïau lleol yn cael cyfle i dendro am gontractau awdurdod lleol gwerth is (o dan £25K). Byddwn yn annog ein busnesau sylfaenol a thwf uchel i dargedu'r cyfleoedd hyn.

Camau gweithredu sy'n cael eu datblygu

YMATEB	CYNNIG	GOFYN
Rhoi cymorth brys i'r rhai sydd mewn perygl o gael eu diswyddo neu sydd wedi colli eu swyddi	Gan adeiladu ar ein profiad o ddarparu rhaglenni cyflogadwyedd lleol a'n gwybodaeth am fusnesau lleol rydym yn ymrwmo i gydgyssylltu pecyn cynhwysfawr o gymorth ar draws partneriaid gan gynnwys Cymru'n Gweithio a'r Ganolfan Byd Gwaith. Bydd Canolfannau Hwb Sir Gaerfyrddin yn creu cyfleoedd mwy cydgyssylltiedig a chydweithredol rhwng asiantaethau i ddarparu cymorth cyflogadwyedd.	Byddwn yn lloïo Llywodraeth Cymru/Cymru'n Gweithio ac Adrannau Gwaith a Phensiynau/y Ganolfan Byd Gwaith i rannu gwybodaeth yn rhagweithiol am ddiswyddiadau a darparu cymorth cyflogadwyedd. Nodi dulliau o gryfhau'r trefniadau presennol ar gyfer diweddarau rheolaidd, rhannu gwybodaeth ac atgyfeiriadau rhwng asiantaethau.
Creu cynifer o gyfleoedd cyflogaeth lleol â phosibl, cefnogi pobl leol i gael gwaith	Drwy'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol, pennu anghenion sgiliau'r gweithlu busnes a chefnogi recriwtio lle y bo'n briodol. Rydym yn ymrwmo i ddeall anghenion ein cyflogwyr yn y sector twf yn well gan gynnwys ein busnesau twf uchel targed.	Byddwn yn lloïo Llywodraeth Cymru i'n helpu i nodi a sicrhau bod arian yn alinio ac yn llenwi'r bylchau hyfforddi a nodir. Mae angen i ni sicrhau bod digon o adnoddau i gefnogi darparwyr hyfforddiant i ddarparu'r rhaglenni hyfforddi a nodir gan fusnesau, gan gynnwys ein sectorau twf uchel.
Allbynnau ac effeithiau	• Nifer uwch o swyddi a ddiogelir • Mwy o bobl yn cael eu hailgyflogi • Cynnydd mewn cyfleoedd prentisiaeth a hyfforddeiaeth mewn busnesau lleol • Mwy o weithwyr sydd â'r sgiliau cysylltiedig â gwaith sydd eu hangen ar fusnesau • Mwy o gyflogaeth i breswylwyr lleol mewn busnesau lleol	

4.7.2 Canlyniadau a Ragwelir

- 6,500 o ymholiadau busnes yn cael cymorth dros 2 flynedd yn uniongyrchol gyda busnesau.
- 2,000 o swyddi wedi'u diogelu dros 2 flynedd yn uniongyrchol drwy ein rhaglenni a'n gweithgareddau.
- 2,000 o swyddi wedi'u creu dros 2 flynedd yn uniongyrchol drwy ein rhaglenni a'n gweithgareddau.
- 1,000 o swyddi wedi'u creu dros 2 flynedd yn gweithio'n anuniongyrchol gyda phartneriaid.

- 1,000 o swyddi wedi'u diogelu dros 2 flynedd gan weithio'n anuniongyrchol gyda phartneriaid.

Pobl

Rhoi sgiliau ac ailsgilio ac i breswylwyr ennill sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer swyddi mewn busnesau twf

YMATEB	CYNNIG
Sectorau Twf	Drwy'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol rydym wedi ymrwmo i ddeall anghenion busnesau ein sectorau twf uchel o ran pobl a sgiliau a sicrhau bod gan breswylwyr lleol y sgiliau cywir i ddiwallu'r anghenion hyn. Lle mae angen uwchsgilio ar gyfer y rhai sydd eisoes yn gweithio yn y sectorau twf uchel, e.e. gwell sgiliau digidol, byddwn yn blaenoriaethu'r hyfforddiant sydd ar gael i'r gweithwyr hyn. Byddwn yn gweithio gyda darparwyr hyfforddiant i roi cymorth prentisiaeth sydd ei angen ar ein sectorau twf uchel. Bydd ein cymorth i ailsgilio ac uwchsgilio pobl yn canolbwyntio ar ddarparu'r sgiliau sydd eu hangen yn ein sectorau twf uchel.

Camau gweithredu sy'n cael eu datblygu

YMATEB	CYNNIG	GOFYN
Targedu pobl hunangyflogedig a microfusnesau	Pecyn cymorth ac arweiniad wedi'i deilwra wedi'i dargedu at ein pobl hunangyflogedig, masnachwyr a microfusnesau lleol i'w galluogi i symud ymlaen a meithrin eu gwytnwch yn yr economi ar ôl y pandemig. Diwallu anghenion amrywiol y busnesau hyn drwy archwiliad iechyd cyffredinol neu ddadansoddiad o faes busnes allweddol i nodi bylchau sgiliau neu feysydd ar gyfer datblygu busnesau ac ystyried y camau gweithredu a'r dull gweithredu sydd eu hangen. Byddwn hefyd yn nodi unigolion a microfusnesau sydd wedi disgyn drwy'r rhwyd o ran cymorth ariannol y Llywodraeth ac a elwir yn 'Eithriedig' ac yn asesu lefel y cymorth sydd ei angen drwy ein pecyn cymorth busnes.	Byddwn yn lloio Llywodraeth Cymru / Busnes Cymru ac asiantaethau cymorth busnes lleol i nodi a sicrhau bod arian yn alinio i lenwi'r bylchau hyfforddiant busnes a nodir. Mae angen i ni sicrhau bod digon o adnoddau i gefnogi darparwyr hyfforddiant i gyflwyno'r rhaglenni hyfforddi a nodir gan fusnesau,
Sgiliau digidol	Creu a chyflwyno rhaglen i wella ymwybyddiaeth ddigidol, sgiliau a llythrennedd busnesau a gweithwyr ledled Sir Gaerfyrddin. Bydd hyn yn hanfodol i ddefnyddio seilwaith digidol yn llwyddiannus. Byddwn yn blaenoriaethu uwchsgilio yn ein sectorau twf uchel.	Byddwn yn herio ein darparwyr hyfforddiant ac yn ymgysylltu â sefydliadau eraill fel Cymunedau Digidol Cymru (Canolfan Cydweithredol Cymru), Cyflymu Cymru i Fusnesau, BT, Google, Microsoft, ac eraill i ysgogi ein heconomi ddigidol. Mae potensial hefyd i bartneru â busnesau lleol i ddarparu cynnwys ar y pwnc penodol a allai fod o ddiddordeb

	ac o fudd i'w cyfoedion h.y. Seiberddiogelwch
Allbynnau ac effeithiau	Mwy o sgiliau a chymwysterau ymhlith pobl hunangyflogedig a microfusnesau Nifer uwch o gymwysterau a gyflawnwyd mewn sectorau twf uchel/llwybrau cyflogaeth Nifer uwch o weithwyr yn ennill y Cyflog Byw Gwirioneddol Lefelau cymhwysedd digidol uwch

4.7.3 Canlyniadau a Ragwelir

- Mwy o sgiliau a chymwysterau ymhlith pobl hunangyflogedig a microfusnesau – 250 dros 2 flynedd; 1000 dros 5 mlynedd.
- Nifer uwch o gymwysterau a gyflawnwyd mewn sectorau twf uchel/llwybrau cyflogaeth – 300 dros 2 flynedd.
- Nifer uwch o weithwyr sy'n ennill y Cyflog Byw Gwirioneddol – 200 dros 2 flynedd.
- Lefelau cymhwysedd digidol uwch – 200 dros 2 flynedd.

Lleoedd

Cynnal trefi bywiog

YMATEB	CYNNIG
Uwchgynlluniau Adfywio	Byddwn yn adolygu ac yn diweddarau ein prif uwchgynlluniau adfywio integredig ar gyfer Caerfyrddin, Llanelli a Rhydaman. Byddwn yn buddsoddi £1.2m o arian cyfatebol mewn prosiectau cyfalaf ac ymyriadau yng nghanol ein trefi i ddiwallu anghenion ein busnesau sylfaenol a thwf uchel.
Cynlluniau Adfer a Thwf Deg Tref	Byddwn yn llunio cynlluniau adfer a thwf ar gyfer ein 10 tref wledig ac yn penodi swyddogion trefi marchnad i helpu pob tref i ddatblygu eu syniadau. Bydd ein cyllid sbarduno gwerth £100,000 a chyllid cyfalaf o £1m yn cefnogi anghenion uniongyrchol a thymor hwy.
Caffael, meddiannu ac aildddefnyddio eiddo	Byddwn yn nodi ac yn cynnal ein gwaith parhaus o gaffael neu brydlesu eiddo yng nghanol trefi. Byddwn yn ymchwilio i gyfleoedd i adleoli/sefydlu cyfleusterau hamdden, addysg e.e. gampfa 24 awr, mewn adeiladau gwag yng nghanol trefi. Byddwn yn buddsoddi mewn tai fforddiadwy newydd drwy ailddatblygu eiddo canol trefi. Byddwn yn trafod materion eiddo yn rheolaidd gyda'n prif berchnogion tir ac eiddo i nodi'r cyfleoedd a'r cymorth sydd eu hangen.
Canolfannau gweithio ystwyth/ar y cyd	Byddwn yn ymchwilio ac yn sefydlu canolfannau gweithio ar y cyd gyda'n partneriaid yn y sector cyhoeddus ac yn darparu cyfleoedd i weithio'n lleol i'r cartref i'r gymuned fusnes.
Gorchmynion Datblygu Lleol	Byddwn yn sefydlu Gorchmynion Datblygu Lleol yng Nghaerfyrddin a Rhydaman ac ardaloedd cyflogaeth strategol posibl i ddarparu mwy o hyblygrwydd ac i leihau'r rhwystrau cynllunio ar gyfer buddsoddi mewn amrywiaeth o ddefnyddiau newydd.

**Gwelliannau
amgylchfyd
cyhoeddus**

i'r

Byddwn yn gweithredu canfyddiadau ein hadolygiad o lwyddiant mesurau COVID-19 mewn canol trefi. Byddwn yn gwneud gwelliannau sy'n gwneud canol ein trefi'n fwy diogel ac yn fwy dymunol ac yn cefnogi ein busnesau manwerthu, bwyd a lletygarwch

Brand a marchnata

YMATEB	CYNNIG
Brand Darganfod Sir Gâr	Byddwn yn cynhyrchu ein brand a'n strategaeth gyfathrebu newydd i gefnogi ein heconomi ymwelwyr a chanol trefi. Ein nod yw cynyddu gwerth arosiadau gwyliau, ymweliadau mynych a gwariant. Rydym hefyd am ddefnyddio ein brand i hyrwyddo Sir Gaerfyrddin fel lle deniadol i fyw, gweithio a buddsoddi yn ein sectorau twf targed.
100% Sir Gâr	Byddwn yn defnyddio ein menter i nodi a chefnogi busnesau i fagu hyder a sgiliau wrth ddefnyddio'r we ac ychwanegu gwerth drwy gyrhaeddiad a gwerthiannau ehangach y farchnad.

Mannau cynaliadwy i fyw

YMATEB	CYNNIG
Tai fforddiadwy newydd	Bydd ein cynlluniau i fuddsoddi dros £107m mewn tai dros y 3 blynedd nesaf yn parhau i fod yn sbardun pwysig ar gyfer adferiad a thwf economaidd. Bydd hyn yn cynnwys datblygu tai fforddiadwy newydd ar draws y sir honno, gan gynnwys canol trefi, trefi gwledig a phentrefi. Mae ein cynlluniau hefyd yn cynnwys uwchraddio'r stoc dai bresennol gan gynnwys rhaglen ôl-ffitio tai a fydd yn lleihau allyriadau carbon ac yn hyrwyddo cynhesrwydd fforddiadwy. Bydd ein buddsoddiad yn helpu i ysgogi'r economi leol, creu swyddi, cefnogi busnesau lleol gan gynnwys y diwydiant adeiladu lleol a datblygu'r gadwyn gyflenwi leol. Bydd hyn yn cyflawni rôl allweddol yn ein hadferiad cychwynnol o COVID-19 gan gynnwys adfywio a datblygu cymunedau cynaliadwy cryf gan gynnwys Tyisha, Pentre Awel, canol trefi, trefi gwledig a phentrefi

Seilwaith i alluogi twf

YMATEB	CYNNIG
Parthau Twf a safleoedd strategol	Byddwn yn gweithio i gyflawni Pentre Awel gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Prifysgolion a Cholegau a\m nifer o flynyddoedd, i ddarparu cyfleusterau hamdden, busnes, byw â chymorth ac iechyd o'r radd flaenaf ar un safle. Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ym Mharth Twf Cross Hands i gyflwyno rhagor o safleoedd cyflogaeth a seilwaith, a chwblhau Prosiect Denu Twristiaid Pentywyn a fydd yn cynnwys amgueddfa newydd o'r radd flaenaf i gofio am gysylltiad hanesyddol Pentywyn â chyflymder dros dir, yn ogystal ag eco-gyrchfan gwyliau gyda 42 o welyau. Byddwn yn parhau i gefnogi twf Yr Egin fel canolfan greadigol a digidol Sir Gaerfyrddin . Bydd cronfeydd newydd ar gyfer y safleoedd hyn yn ysgogi buddsoddiad gan y sector preifat ar gyfer busnesau newydd a gwerth uchel, gan greu cannoedd o swyddi a chynhyrchiant newydd mewn sectorau technoleg uchel.

Cysylltedd ffisegol a theithio cynaliadwy	Rydym yn gweithio tuag at wella cysylltedd rheilffyrdd mewn rhannau o Sir Gaerfyrddin i gynyddu cysylltedd a chynhwysiant, a lleihau traffig ffyrdd, tagfeydd ac allyriadau carbon. Mae gwaith dichonoldeb yn cael ei wneud ar yr orsaf newydd yn Sanclêr gyda chyllid sylweddol gan Lywodraeth y DU (£4.7m). Rydym wedi ymrwymo i gyflawni prosiectau allweddol gan gynnwys y rhan sy'n weddill o Lwybr Beicio Dyffryn Tywi o Gaerfyrddin i Landeilo. Byddwn yn parhau i lobïo Llywodraeth Cymru i gynyddu'r cyllid i alluogi datblygu teithio llesol a llwybrau mwy diogel. Gyda thwf a phwysigrwydd logisteg trafndiaeth a'r gadwyn gyflenwi, ac ein sefyllfa ar y llwybr masnachu gydag Iwerddon, ystyrir yr opsiynau o ddatblygu parc/parciau lorïau dros nos yn y sir.
--	--

Camau gweithredu sy'n cael eu datblygu

YMATEB	CYNNIG	GOFYN
Tai carbon isel a lleihau ynni drwy ôl-ffitio	Byddwn yn cefnogi'r gwaith o ddarparu tai carbon isel a mesurau effeithlonrwydd ynni ôl-ffitio i'n cartrefi ein hunain a chartrefi preifat. Byddwn yn sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i'n busnesau lleol a'n sector economi werdd weithio gyda'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol.	Byddwn yn ymchwilio ac yn sicrhau arian drwy e.e. cyllid rhwymedigaethau Cwmnïau Ynni (ECO). Byddwn yn herio Llywodraeth Cymru a darparwyr hyfforddiant i sicrhau ein bod yn paratoi pob elfen o'r gadwyn gyflenwi ar gyfer darparu cartrefi sero-net.
Allbynnau ac effeithiau	• Twf mewn swyddi adeiladu/cynnal a chadw lleol mewn sgiliau/technoleg ynni • Creu galw wrth ddatblygu'r gadwyn gyflenwi • Lefelau is o gostau ynni cartref a mwy o incwm gwario	
Gwella cysylltedd digidol	Drwy ein rhaglen ddigidol gynhwysfawr byddwn yn sicrhau bod ein preswylwyr a'n busnesau yn gweithredu ac yn cystadlu yn yr economi fyd-eang gan barhau i fod wedi'u lleoli yn Sir Gaerfyrddin. Gallwn sicrhau lefel dderbyniol o gysylltedd digidol i'r rhan fwyaf o fusnesau yn y tymor byr. Rydym yn gweithio tuag at y targed o gysylltedd gigabit yn y dyfodol ar gyfer y tymor canolig i'r hirdymor	Rydym wedi ymrwymo i gyflawni'r prosiect seilwaith digidol ar gyfer y rhanbarth a sicrhau'r arian angenrheidiol i'w gyflwyno ymysg y diwydiant telathrebu yng Nghaerfyrddin
Allbynnau ac effeithiau	• Cysylltedd digidol ffibr llawn i lefelau derbyniol ar draws Sir Gaerfyrddin • Mwy o ddefnydd o dechnolegau digidol a lefelau arloesi • Mwy o achosion o gydweithredu a throsglwyddo technoleg	

4.7.4 Canlyniadau a Ragwelir

- Mwy o weithwyr gyda'r sgiliau cysylltiedig â gwaith sydd eu hangen ar fusnesau - 300 dros 2 flynedd.
- Eiddo â sgôr F-G 12,000 o aelwydydd sy'n byw mewn tai cynnes sy'n effeithlon o ran ynni – sy'n cyfateb i £3.5 miliwn o arbedion blynyddol (£296 y cartref).

- Diogelu 7,000 o swyddi adeiladu/cynnal a chadw drwy ddatblygu sgiliau a thechnoleg i gyflawni mesurau effeithlonrwydd ynni drwy ôl-ffitio, cynnal a chadw ac adeiladu o'r newydd.

5 Sut y byddwn yn cyflawni

- 5.0.1 Mae'r ffordd rydym yn helpu i sicrhau adferiad a thwf yr economi yr un mor bwysig â'r hyn yr ydym yn ei gyflawni – ac mae ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi atgyfnerthu'r angen i weithio'n wahanol i adfer a gwella llesiant economaidd cynaliadwy Sir Gaerfyrddin. Mae'r Ddeddf yn rhoi'r pum ffordd o weithio ar waith i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn ystyried y tymor hir, yn gweithio i atal problemau rhag digwydd neu waethygu, yn mabwysiadu ymagwedd integredig a chydweithredol, ac yn ystyried ac yn cynnwys pobl.
- 5.0.2 Mae dull Sir Gaerfyrddin yn golygu bod gennym ffocws cryf ar ein cymuned leol ond hefyd yn gweithio'n rhanbarthol ac yn genedlaethol i fanteisio i'r eithaf ar bob cyfle i ymadfer a thyfu. Mae'r rôl hanfodol y mae'r Awdurdod Lleol wedi'i chwarae wrth arwain yr ymateb brys i COVID-19 wedi'i chryfhau gan ein gallu i gyfrannu elfennau amrywiol ar lefel gymunedol ac economaidd ehangach. Mae hyn wedi cynnwys tai, trafnidiaeth, adfywio a chynllunio ac ati ac mae wedi cael ei adlewyrchu yng nghwmpas ein grŵp ar gyfer adfer Busnes, yr Economi a'r Gymuned a'n 11 thema.
- 5.0.3 Fodd bynnag, er eu bod yn gweithio mewn lle blaenllaw o ran datblygu ac adfer economaidd, nid yw'r rhain yn swyddogaethau statudol Cyngor Sir Gaerfyrddin, ac ar yr un pryd mae adferiad a thwf cynhwysol y tu hwnt i gwmpas unrhyw un o adrannau'r Cyngor. Ni allwn ychwaith sicrhau adferiad drwy weithredu ar ein pen ein hunain, mae angen gweithredu ar y cyd i gryfhau ein mecanweithiau presennol, gan gynnwys y ffordd rydym yn gweithio gyda'n busnesau a phartneriaid BGC ac eraill sy'n gweithio yn y tymor hir.
- 5.0.4 Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'n partneriaid economaidd strategol yn Llywodraeth Cymru, a'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol a thrwy'r BGC gyda'r sector cyhoeddus ac yn enwedig yr Adran Gwaith a Phensiynau. Lle bo angen, byddwn yn treialu mentrau, yn dangos darpariaeth ac yn rhannu'r profiad gyda'n partneriaid i helpu i gynyddu'r mentrau hyn ar draws y sir e.e. ein gwaith tuag at hyrwyddo caffael cynyddol.
- 5.0.5 Fodd bynnag, rydym yn cydnabod mai un o wersi allweddol y pandemig fu'r angen i greu mecanwaith i ddod â chynrychiolwyr o'n cymuned fusnes at ei gilydd i ddatblygu a rhannu gwybodaeth, cytuno i flaenoriaethau a meithrin perthnasoedd hirdymor rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Byddwn yn ymchwilio gyda'n rhanddeiliaid busnes sut i esblygu'r Fforwm Cyngori ar Fusnesau a'r grŵp Gwasanaethau Amaeth a Phroffesiynol yn fforwm busnes strategol i Sir Gaerfyrddin sy'n cynrychioli ein sectorau targed, targed ymgysylltu â busnesau twf uchel, pobl hunangyflogedig, busnesau bach ac asiantaethau

menter lleol e.e. Antur Cymru, Menter a Busnes, a grwpiau aelodaeth e.e. NFU/FUW, SBF.

- 5.0.6 Gallai is-grŵp o'n fforwm strategol ganolbwyntio ar gymorth busnes a chynnwys partneriaid a rhanddeiliaid allweddol sy'n ymwneud â darparu entrepreneuriaeth, cymorth busnes a chynnwys addysg bellach ac uwch drwy Goleg Sir Gâr a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.
- 5.0.7 Bydd angen i ni fonitro a gwerthuso ein camau gweithredu'n ofalus er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud iawn am weithgarwch economaidd a gollwyd, gweithgarwch diogelu sydd mewn perygl, a hyrwyddo twf i ffurfio tir coll. Byddwn yn sefydlu fframwaith monitro a gwerthuso i gynnwys camau gweithredu a gyflawnir gan yr holl rhanddeiliaid; arfarnu'r allbynnau a'r canlyniadau arfaethedig o'r camau hyn; monitro a ydynt yn cael eu cyflawni; gwerthuso pam eu bod yn llwyddiannus neu pam nad ydynt yn llwyddiannus; ac ailffocysu ein camau gweithredu'n barhaus er mwyn cyflawni'n well.